CBAC
WJEC

# TAG
## Astudiaethau Crefyddol

**RS3 PHIL:**
**Astudio Athroniaeth Crefydd (U2)**

***gan Gordon Reid***

## Pwnc un: A yw ffydd grefyddol yn beth rhesymol?

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn dylech fod yn gallu:

- Esbonio syniadau allweddol y Ddadl Ontolegol dros fodolaeth Duw
- Gwerthuso llwyddiant y ddadl hon
- Deall y problemau sy'n codi o'r cysyniadau y mae'r ddadl yn dibynnu arnynt
- Esbonio a gwerthuso dadleuon ynglŷn â llwyddiant neu fethiant y Ddadl Ontolegol
- Esbonio damcaniaethau ynglŷn â natur ffydd
- Esbonio'r berthynas rhwng ffydd, rheswm a datguddiad
- Esbonio cysyniadau gosodiadol ac anosodiadol o ddatguddiad
- Esbonio cyfraniadau ysgolheigion allweddol at y dadleuon hyn

### 1. Y Ddadl Ontolegol

### (i) Cymeriad arbennig y Ddadl Ontolegol

Yn wahanol i'r Dadleuon Cosmolegol a Theleolegol (Cynllun), y mae'r Ddadl Ontolegol yn ddadl *a priori*, gasgliadol a dadansoddol. Golyga hyn ei bod yn symud trwy gamau rhesymegol at gasgliad sy'n amlwg gywir neu'n rhesymegol angenrheidiol. Seilir dadl lwyddiannus o'r math hwn ar ragosodiadau sydd eisoes yn dynodi'r casgliad a fydd yr unig gasgliad posibl y gellir dod iddo ar sail y rhagosodiadau hynny. Rhaid i'r rhagosodiadau gynnwys gwirioneddau dadansoddol sy'n wir trwy ddiffiniad – nid oes rhaid bod tystiolaeth allanol i'w cynnal. Yn yr achos hwn, seilir y Ddadl Ontolegol ar ragosodiadau ynglŷn â natur Duw y cred ei chefnogwyr eu bod yn arwain o anghenraid at y casgliad fod Duw'n bod – mewn geiriau eraill, dengys y ddadl ei bod yn amhosibl dod i'r casgliad nad yw Duw'n bod.

Cynigiwyd y Ddadl Ontolegol gan Anselm yn 1078, ac apeliodd at lawer o feddylwyr pwysig, yn cynnwys Descartes, Norman Malcolm ac Alvin Plantinga. Fe'i gwrthwynebwyd yn ffyrnig gan Aquinas a Kant, er gwaethaf eu safbwyntiau gwahanol ar natur Duw. Yn ddiweddar, fe'i heriwyd gan Bertrand Russell a G E Moore, a cheisiodd hyd yn oed Richard Dawkins wrthbrofi ei dull o ddadlau.

Yn 1078, yn ei *Proslogion*, cynigiodd Anselm, Archesgob Caergaint ar y pryd, fod bodolaeth Duw yn wir o angenrheidrwydd rhesymegol – ni allai rheswm ei amau ac ni ellid dangos dim i'w wrthbrofi. Arweiniodd ei ddull o resymu ef i'r casgliad: '*I ti, Arglwydd da, y byddo'r diolch, i ti y byddo'r diolch, am fy mod yn awr yn deall trwy dy oleuni yr hyn a gredwn gynt trwy dy rodd*'. Credai Anselm ei fod wedi yswirio ei gred yn Nuw oddi wrth bob ymosodiad posibl.

Mewn gwirionedd, ceisiodd Anselm brofi bodolaeth Duw trwy'r dull a elwir yn ***reductio ad absurdum***. Anela'r dull hwn o resymu at ddangos bod rhywbeth yn wir trwy ddatgelu pa mor afresymol yw gwadu ei fod yn wir - yn achos Anselm, pa mor afresymol yw gwadu nad yw Duw'n bod. Ceisiodd ddangos bod hynny'n afresymol trwy ddefnyddio dadl sy'n dangos bod bodolaeth Duw

yn rhesymegol angenrheidiol (h.y. ni all Duw *beidio* â bod).

I'w ystyried:
Beth yw eich ymateb cyntaf i'r math hwn o ymresymu? A ydych yn meddwl ei bod yn rhesymol profi bod rhywbeth yn wir trwy ddiffiniad ac na ellir felly ei herio? Er enghraifft, os dywedwn 'hen lanc (*bachelor*) yw John', a yw hynny'n golygu ei fod heb amheuaeth yn ddyn ac yn ddibriod? Meddyliwch am enghraifft arall.

**(ii) Profi bodolaeth angenrheidiol Duw**

Mae dadl Anselm wedi ei seilio ar dair is-ddadl:


1. Bod gan y diffiniad o Dduw fel *yr un na ellir dirnad dim mwy nag ef* oblygiadau anochel i'w fodolaeth.
2. Bod anfodolaeth Duw yn rhesymegol amhosibl.
3. Bod yr anffyddiwr yn 'ffŵl' i gredu nad yw Duw'n bod.

Seiliodd Anselm y ddadl ar ystyr gynhenid y gair 'Duw'. Yn arwyddocaol, honnai fod Duw, trwy ddiffiniad, yn golygu 'un na ellir dirnad dim mwy nag ef' a bod credinwyr ac anghredinwyr fel ei gilydd, wrth siarad am Dduw, yn deall y cysyniad hwn yn reddfol. Y mae Duw yn 'fwy' na phob bod arall, ond yn yr ystyr ei fod yn gwbl berffaith. Er mwyn medru ei ddiffinio fel hyn, *rhaid* bod yr 'un na ellir dirnad dim mwy nag ef' yn meddu pob perffeithrwydd. Wrth sôn am Dduw, am fod o'r fath y byddwn yn sôn .

Dadl hollbwysig Anselm yw na all y bod hwn, os yw'n meddu pob perffeithrwydd, beidio â bod. Seilir y rhagdybiaeth allweddol hon ar yr egwyddor fod bodolaeth yn berffeithrwydd - yn rhywbeth y gall bod neu beth ei feddu neu fod hebddo, ac sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r bod hwnnw neu'r peth hwnnw. Mae bodolaeth yn rhywbeth sydd *ganddo*, fel y gall fod ganddo liw neu faint arbennig, deallusrwydd, ymwybyddiaeth neu anwybyddiaeth foesol. Ymhellach, gosodai Anselm fodolaeth yn yr un categori â daioni, cariad, doethineb neu gyfiawnder - nodweddion y byddai'r rhan fwyaf o theistiaid clasurol yn eu priodoli i Dduw - a thrwy wneud hynny y mae'n ei thrin fel pe bai'n briodoledd - yn nodwedd ddiffyniadol.

Mae'r cam hwn yn bwysig am ei fod yn sefydlu y gellir meddu bodolaeth neu fod hebddi, a bod meddu bodolaeth o angenrheidrwydd yn rhagorach (*greater*) peth na bod hebddi. Ond y mae mwy i'r peth na hynny am y gall bodolaeth fod ***in re*** (mewn realiti) neu ***in intellectu*** (yn y meddwl). Yn ddamcaniaethol, gall fod gan yr hyn sy'n bodoli yn y meddwl bob ansawdd sy'n gwneud rhagoriaeth, ond y mae'r hyn sy'n bodoli mewn realiti yn ddiamau'n rhagorach am fod gan hwnnw mewn realiti'r nodwedd honno sy'n gwneud rhagoriaeth, sef bodolaeth. Gan mai Duw yw'r un na ellir dirnad dim mwy nag ef, rhaid bod Duw'n meddu perffeithrwydd bodolaeth mewn realiti yn ogystal ag yn y meddwl. Pe na bai felly, byddai rhywbeth nad oedd Dduw ond a oedd yn bod mewn realiti yn fwy na Duw, ac y mae hynny'n amhosibl am fod y diffiniad o Dduw yn gwahardd i ddim bod yn fwy nag ef. Yn ôl Anselm:

*Yn awr, yr ydym yn credu dy fod yn fod na ellir meddwl am ddim mwy ... y mae'n amlwg na all bod na ellir meddwl am ddim mwy nag ef fodoli yn y dealltwriaeth yn unig. Oherwydd os yw mewn gwirionedd yn y dealltwriaeth yn unig, gellir meddwl amdano yn bod mewn realiti, ac y mae hynny'n fwy ... heb amheuaeth, felly, y mae'n bod, yn y dealltwriaeth ac mewn realiti, rywbeth na ellir meddwl am ddim mwy nag ef.*



Pwnc seminar:
*Eglurodd Anselm ei feddwl trwy ddefnyddio cyfatebiaeth. Y mae gwaith nesaf arlunydd eisoes yn ei feddwl; y mae ganddo syniad clir ohono ef a'i fodolaeth yn ei ymennydd. Fodd bynnag, ni ellir dweud fod y gwaith yn bodoli nes y bydd wedi'i beintio a'i fod yn bod mewn sylwedd. Yn ôl Anselm, mae bodoli mewn sylwedd yn ddi-ddadl yn fwy na bodoli yn yr ymennydd.*

Trafodwch a ydych yn meddwl bod hon yn gyfatebiaeth gref. A yw'n gymorth i chi ddeall y Ddadl Ontolegol? Yn eich grwpiau lluniwch gyfatebiaeth arall i esbonio'r gwahaniaeth rhwng bodoli mewn sylwedd a bodoli yn yr ymennydd. A ydych yn meddwl bod bodoli mewn sylwedd yn gwneud rhywbeth neu rywun yn fwy? A ydych yn deall beth y mae'n ei olygu i sôn am fodolaeth fel 'priodoledd gwneud yn fawr'?

Fel pob dadl dros fodolaeth Duw, gellir gosod y Ddadl Ontolegol allan yn gyfres o osodiadau a chasgliad, sy'n gwneud rhesymeg y ddadl yn glir. Y mae sawl ffordd o wneud hyn; dyma un fersiwn defnyddiol:

G1: Duw yw'r un na ellir dirnad dim mwy nag ef.

G2: Mae bob perffeithrwydd yn perthyn i'r un na ellir dirnad dim mwy nag ef.

G3: Y mae bodolaeth yn berffeithrwydd.

G4. Mae'n berffeithiach bodoli mewn realiti na bodoli yn y meddwl yn unig.

G5: Rhaid felly bod yr un na ellir dirnad dim mwy nag ef yn bodoli mewn realiti.

G6: Pe bai'n bosibl i'r un na ellir dirnad dim mwy nag ef beidio â bodoli, nid ef fyddai'r bod dirnadwy mwyaf.

G7: Rhaid felly i'r un na ellir dirnad dim mwy nag ef fodoli o anghenraid.

Casgliad: Mae Duw'n bodoli o anghenraid.

Yn ôl y casgliad, y mae Duw'n bodoli o anghenraid. Yn y Ddadl Ontolegol, cymer hynny ffurf arbennig – angenrheidiol ***de dicto*** – trwy ddiffiniad. Calon dadl Anselm yw mai peth afresymol yw gwadu bodolaeth Duw am fod y diffiniad o Dduw yn gofyn ei fod yn bod. Unwaith y mae hyn yn cael ei ddeall yn iawn, mae'n amhosibl gwadu bodolaeth Duw. Fel y dywed Anselm:

*Gellir meddwl am rywbeth yn bod na ellir meddwl amdano heb fod yn bod, ac y mae'r peth hwnnw'n fwy na'r peth y gellir meddwl amdano heb fod yn bod ... Felly, y mae'n wir fod bod na ellir meddwl am ddim mwy nag ef – mor wir fel*

*na ellir hyd yn oed meddwl amdano heb fod yn bod. Felly, ni all y sawl sy'n deall yn y modd hwn fod Duw'n bod feddwl amdano heb fod yn bod.*

Pwnc trafod:
Pa ddadleuon yr ydych yn meddwl y gellir eu cynnig yn erbyn y cysyniad o fodolaeth angenrheidiol? A yw'n ystyrlon sôn am fod y mae'n rhaid iddo fodoli trwy ddiffiniad? A allem gymhwyso'r cysyniad at unrhyw beth y gwyddom amdano trwy brofiad? Er enghraifft, gallwn ddweud bod cylch yn grwn neu fod gan driongl dair ongl, ond a allem ddweud bod yn rhaid iddynt fodoli?

**(iii) Y goblygiadau i anffyddiaeth**

Eto i gyd, fe ŵyr Anselm y gall yr anffyddiwr – a uniaethir ganddo â'r 'ynfyd' yn Salm 53:1: '*Dywed yr ynfyd [*Saes.: *fool] yn ei galon, "Nid oes Duw"*' – wadu bodolaeth Duw. Mae'r anffyddiwr yn cael ei alw'n *ynfyd* oherwydd ei fod yn euog o hawlio rhywbeth nad yw'n bosibl iddo fod yn wir am nad yw'n deall llawn oblygiadau ystyr sôn am Dduw. Pe bai wedi deall gwir ystyr y gair 'Duw', sef 'un na ellir dirnad dim mwy nag ef', byddai'n amhosibl iddo wadu ei fodolaeth. Gan fod gan yr anffyddiwr gysyniad o Dduw yn ei feddwl, credai Anselm y byddai'n rhesymol iddo gydnabod ei bod yn amhosibl gwadu ei fodolaeth:

*A all fod nad oes bod o'r fath, oherwydd i'r 'ynfyd ddweud yn ei galon "Nid oes Duw"'?… Ond pan mae'r ynfyd yn clywed hwn beth a ddywedaf – "Bod na ellir meddwl am ddim mwy nag ef" – bydd yn deall yr hyn a glyw ... hyd yn oed os nad yw'n deall ei fod yn bod ...Felly, rhaid i hyd yn oed yr ynfyd gael ei argyhoeddi fod bod na ellir meddwl am ddim mwy nag ef yn bod o leiaf yn ei ddealltwriaeth.*

Pwnc seminar:
Mewn grŵp, penderfynwch a yw Anselm yn iawn i ddadlau bod yn rhaid i anffyddiwr gydnabod bodolaeth Duw. Sut y gallai anffyddiwr ymateb i hyn? Chiliwch sut y diffiniodd gwahanol feddylwyr, yn cynnwys anffyddwyr, Dduw, a thrafodwch a yw pob un o'r diffiniadau hyn mor dderbyniol â'i gilydd. A fyddent yn arwain Anselm i'r un casgliad, bod Duw yn bodoli o anghenraid?

**(iv) Heriau cynnar i ddadl Anselm**

Gwrthodwyd dadl Anselm gan gyfoeswr iddo, y mynach Gaunilo, a gynigiodd *reductio ad absurdum* gwrthgyferbyniol i ddangos bod rhesymeg y ddadl, o'i chymhwyso at bethau heblaw Duw, yn arwain at gasgliadau afresymol. O osod y gair 'ynys' yn lle 'Duw', fe geir dadl sydd yr un fath o ran ffurf â dadl

Anselm, ond na all y casgliad fod yn wir:

G1 Gallaf ddirnad ynys na ellir meddwl am ynys ragorach na hi.

G2 Rhaid bod pob perffeithrwydd yn perthyn i ynys o’r fath.

G3 Y mae bodolaeth yn berffeithrwydd.

G4 Y mae’r ynys, felly, yn bod.

Hyd yn oed pe bai’r rhagosodiad yn sôn am ‘yr ynys ragoraf posibl’, byddai’r ddadl yn dal i arwain at gasgliad annilys oherwydd, yn gwbl amlwg, nid yw meddwl am ynys yn ei holl berffeithrwydd yn warant o’i bodolaeth nac yn gallu ei dwyn i fod. Felly, y mae beirniadaeth Gaunilo yn mynd at galon y prawf ontolegol sy’n dibynnu ar (i) bod perffeithrwydd o angenrheidrwydd yn golygu bodoli a (ii) bod yr hyn sy’n berffaith yn bodoli o angenrheidrwydd. Credai Gaunilo fod Anselm yn euog o ddiffinio Duw i fodolaeth - trwy ddweud ei bod yn rhaid bod Duw’n bod am ei fod yn berffaith trwy ddiffiniad, yr oedd yn gwneud camgymeriad wrth gysylltu dadleuon - yn symud o’r cysyniad o rywbeth i realiti’r peth hwnnw ar sail dim ond diffiniad.

Ni fennodd sialens Gaunilo ddim ar Anselm. Ni ddywedodd ddim ond mai at Dduw’n unig y bwriadwyd y prawf, nid at bethau dibynnol fel ynysoedd. Gwna bodolaeth angenrheidiol Duw gwestiwn ei fodolaeth yn fater gwahanol iawn, oherwydd fe ellir newid unrhyw ynys, ei gwneud yn well neu’n waeth, a dibynna’i bodolaeth ar ffactorau eraill, ond ni ellir dweud hynny am Dduw sydd, trwy ddiffiniad a natur, yn gynhenid berffaith. Nid barn dynolryw sy’n penderfynu perffeithrwydd Duw ac ni ellir ei newid. Ym marn Anselm, yr oedd y prawf yn dal dŵr.

Yn y drydedd ganrif ar ddeg dadleuodd Aquinas fod Anselm yn euog o ragdybio bod y diffiniad o Dduw yn deillio o reswm yn unig. Teimlai Aquinas nad yw deall y gair ‘Duw’ yn golygu dim ond bod Duw’n bodoli *in intellectu*, nid *in re*. Rhaid dangos bodolaeth Duw mewn realiti *a posteriori*, a dyna y mae Pum Ffordd Aquinas yn ceisio’i wneud. Dim ond pan brofir bodolaeth Duw *a posteriori* y byddwn mewn sefyllfa i ddyfalu ynglŷn â’i natur. Nid yw Duw’n bod oherwydd ei fod yn berffaith; yn hytrach, os yw Duw’n bod, gellir wedyn ddangos ei fod yn berffaith trwy gyfeirio at ffactorau eraill.

Tasg ysgrifennu:
(a) Amlinellwch syniadau allweddol un ffurf ar y Ddadl Ontolegol.
(b) Gwerthuswch y safbwynt nad yw’r ddadl hon yn profi bod yn rhaid bod Duw’n bod.

**(v) Dadl Ontolegol Descartes**

Adfywiwyd y Ddadl Ontolegol gan René Descartes (1598–1650), a’i hailddatganodd yn benodol yn nhermau perffeithrwydd a bodolaeth angenrheidiol. Apeliai’r Ddadl ato ef am ei fod yn athronydd rhesymolaidd a geisiai brofi bodolaeth Duw trwy reswm yn unig. Am y gallai Descartes ddirnad yn rhesymegol ei fodolaeth ei hun, gallai hefyd ddirnad bodolaeth bod perffaith. Awgryma fod y syniad o fod perffaith yn syniad greddfol, y gallwn ddirnad bod perffaith heb ein bod yn berffaith ein hunain.

| | |
|---|---|
| G1 | Yr wyf fi'n bod. |
| G2 | Yn fy meddwl mae gen i gysyniad o fod perffaith. |
| G3 | Gan mai bod amherffaith ydwyf, ni allwn fod wedi dychmygu'r cysyniad o fod perffaith |
| G4 | Rhaid, felly, bod y cysyniad o fod perffaith yn deillio o'r bod perffaith ei hun. |
| G5 | I fod yn berffaith, rhaid bod bod perffaith. |
| G6 | Felly, y mae bod perffaith. |

Pwnc trafod:
A yw'r ddadl hon yn eich argyhoeddi? A yw'n wir na all bodau amherffaith ddirnad perffeithrwydd heb gymorth perffeithrwydd ei hun? A allai hynny arwain, gyda chyfiawnhad, at honni na allwn ddirnad dim nad ydym wedi'i brofi'n uniongyrchol?

Gellir hefyd gyflwyno dadl Descartes gyda Duw, y bod perffaith, yn oddrych, a dadlau y perthyn bodolaeth i Dduw yn ddadansoddol, fel y priodolir yn ddadansoddol dair ongl i driongl:

| | |
|---|---|
| G1 | Y mae'r syniad o Dduw yn syniad o fod hollol berffaith. |
| G2 | Perthyn i fod hollol berffaith bob perffeithrwydd. |
| G3 | Y mae bodolaeth yn berffeithrwydd. |
| G4 | Perthyn i fod hollol berffaith berffeithrwydd bodolaeth. |
| G5 | Mae'n amhosibl meddwl am Dduw nad yw'n bod. |
| G6 | Y mae Duw'n bod. |

Pwnc myfyrdod:
Dadleuodd Descartes hefyd ei bod mor angenrheidiol y perthyn bodolaeth i Dduw ag y perthyn dyffryn i fynydd. A ydych yn credu bod y gyfatebiaeth hon yn gweithio'n dda? A yw'n fwy neu'n llai defnyddiol na chyfatebiaeth y triongl?

## (vi) Nid priodoledd yw bodolaeth

Adfywiodd Immanuel Kant y sialensiau i'r Prawf Ontolegol trwy ddweud fod yn rhaid inni, beth bynnag ein cysyniad o wrthrych, fynd y tu allan iddo os ydym am briodoli bodolaeth iddo. Mewn geiriau eraill, nid un o'r priodoleddau a roddwn ni i fod neu beth yw bodolaeth, am nad rhywbeth sydd *gan* fod neu beth ydyw. Yn hytrach, ni pherthyn priodoleddau mewn realiti i fod neu beth, na pheidio â pherthyn, dim ond os yw'n bodoli'n real ac annibynnol.

Un o sylfeini ffurfiau Anselm a Descartes ar y Ddadl Ontolegol yw mai priodoledd yw bodolaeth, nodwedd neu ansawdd y gellir ei feddu neu fod hebddo ac y mae ei bresenoldeb neu ei absenoldeb yn rhan o'n dealltwriaeth ni ohono. Fodd bynnag, yn ôl Kant, nid oes cysylltiad rhwng bodolaeth rhywbeth a'r diffiniad ohono, gan nad yw'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r peth hwnnw. Rhaid inni sefydlu bod rhywbeth yn bod cyn y gallwn ddweud sut beth ydyw, nid fel arall, ac nid yw bodolaeth ynddi'i hun yn ychwanegu at natur bod neu beth. Felly, ni allwn briodoli bodolaeth *a priori* i'n diffiniad o fod perffaith. Y mae hynny'n gyfystyr â dweud 'Y mae Duw sy'n bodoli yn bod'.

Dangosodd yr athronydd o'r ugeinfed ganrif, G.E. Moore, ymhellach yr egwyddor na ellir defnyddio bodolaeth fel priodoledd, am nad yw bodolaeth yn gweithio fel y gwna priodoleddau eraill. Er enghraifft, ymddengys bod gan y ddau ddatganiad a ganlyn yr un strwythur ond, o edrych yn fanylach, er bod y datganiad cyntaf yn gywir, nid felly'r ail:

- Y mae rhai teigrod dof nad ydynt yn chwyrnu.
- Y mae rhai teigrod dof nad ydynt yn bod.

Cyfeiria'r cyntaf at deigrod dof nad ydynt yn chwyrnu, a gellir dirnad bod categori o deigrod dof o'r fath. Cyfeiria'r ail at gategori o deigrod dof nad ydynt yn bod, ac y mae hynny'n annirnadwy. Y mae teigrod dof naill ai'n bod fel categori cyflawn neu ddim yn bod – ac, yn wir, gall fod rhai sydd yn chwyrnu a rhai sydd ddim.

Yn yr un modd, dadleuodd Bertrand Russell nad priodoledd yw bodolaeth ond yn hytrach ei fod yn air a ddefnyddir i ddynodi enghraifft o rywbeth ym myd gofod ac amser. Felly, nid yw'r datganiad 'Y mae rhai teigrod yn bod' yn dweud dim wrthym am natur y teigrod, ond y mae'n dynodi bod pethau o'r fath yn bod yn y byd. Ni ddywed y ddau ddatganiad 'Y mae gwartheg yn frown' ac 'Y mae gwartheg yn frown ac yn bodoli' ddim ond un peth wrthym, sef bod gwartheg yn frown. Y mae priodoli bodolaeth iddynt yn dangos nad gwartheg dychmygol mohonynt, ond nid yw'n ychwanegu nodwedd arall.

Pwnc trafod:
Pa mor bwysig yw hi i wahaniaethu rhwng honiadau ynglŷn â bodolaeth sy'n *ymddangos* fel pe baent yn gweithio yn yr un ffordd am eu bod yr un fath yn ramadegol? Er enghraifft, ystyriwch y ddau honiad hyn:
A. Mae gan bob buwch gynffon.
B. Mae gan bob ungorn (*unicorn*) gorn.
Yn ramadegol, y mae'r ddau honiad hyn yn union yr un fath â'i gilydd, ac y mae felly, yn ôl rhesymeg Russell, yn rhesymol cymryd yn ganiataol fod gwartheg ac ungyrn yn bod mewn amser a gofod. A allwch chi ddatrys y broblem hon?

Ystyriodd **David Hume** hefyd y ddadl bod methiant yn dibynnu ar yr egwyddor fod bodolaeth angenrheidiol yn gysyniad sy'n dal dŵr. Dadleuodd na all bodolaeth byth fod yn ddim ond amodol (dibynnol a chyfyngedig) ac oherwydd y gellir gwadu'n ddiwrthwynebiad bob datganiad ynglŷn â bodolaeth, am unrhyw beth sy'n bodoli gellir dweud hefyd nad yw'n bodoli. Ni chytunai fod unrhyw ffurf ar fodolaeth yn ddadansoddol wir; mater o ffaith ydyw, dyna i gyd.

Yn y bôn, sylfaenir y rhan fwyaf o'r beirniadaethau hyn ar yr honiad na ellir symud o angenrheidrwydd *de dicto* honiad (bod rhywbeth yn wir trwy ddiffiniad) i angenrheidrwydd *de re* (bod rhywbeth yn bodoli yn y byd real). Heria Hume hyd yn oed y posibilrwydd fod rhywbeth yn bodoli o anghenraid. Os cytunwn â'i resymeg ef, y mae nam sylfaenol yn sylfeini'r Ddadl Ontolegol.

### (vii) Cefnogaeth barhaol i'r ddadl

Er gwaetha'r sialensiau hyn, fe gefnogwyd y ddadl hefyd gan rai meddylwyr blaenllaw, yn cynnwys Leibniz. Gan ei bod yn amhosibl meddwl am unrhyw ddiffyg perffeithrwydd yn Nuw, dadleuai Leibniz fod yn rhaid bod Duw'n bod, am y byddai'n ddiystyr meddu ar bob perffeithrwydd a pheidio â bod. Cafwyd ffurf ar y ddadl o blaid bodolaeth angenrheidiol hefyd gan Norman Malcolm, sy'n gweithio ar y rhagdybiaeth os *gall* Duw fodoli fod yn *rhaid* iddo fodoli am na all beidio â bodoli. Dadleua Malcolm fod Duw, yn wahanol i fodau dibynnol nad yw bodolaeth yn ddim ond posibilrwydd iddynt, yn achos arbennig. Gellir gosod y ddadl fel hyn:

G1 Duw yw'r un na ellir meddwl am ddim mwy nag ef.

G2 Perthyn i fod hollol berffaith bob perffeithrwydd.

G3 Os yw Duw yn meddu pob perffeithrwydd, rhaid ei fod yn meddu bodolaeth angenrheidiol.

G4 Ni all bod angenrheidiol beidio â bod.

G5 Pe *gallai* Duw fodoli, yna byddai'n bodoli o anghenraid.

G6 Gwrthddywediad yw dweud nad yw bod angenrheidiol yn bodoli.

G7 Rhaid bod Duw'n bod.

Am y gallwn ddychmygu unrhyw nifer o fydoedd eraill lle y gall pethau fod yn gwbl wahanol – er enghraifft, byd lle y byddai clwb pêl-droed Arsenal yn yr Ail Gynghrair ac Accrington Stanley yn y Gynghrair Gyntaf – awgrymodd Alvin

Plantinga ei bod yn rhaid bod unrhyw nifer o fydoedd lle y gall pethau fod yn wahanol, gan gynnwys ein byd ni. Fodd bynnag, os yw bodolaeth Duw'n angenrheidiol, rhaid ei fod yn bod ynddynt bob un a bod ganddo holl nodweddion Duw ym mhob un – mewn geiriau eraill, ni ellir dirnad byd nad yw Duw'n bod ynddo. Ac yntau'r bod mwyaf a rhagoraf posibl, rhaid ei fod yn bod ym mhob byd.

Pwnc seminar:
Mewn grŵp, aseswch gryfderau a gwendidau'r cyfraniadau modern hyn at y Ddadl Ontolegol. A ydynt yn dangos bod i'r ddadl werth parhaol?

**(viii) Gwerth wrth-realaidd y ddadl**

Mae'n bosibl fod y Ddadl Ontolegol yn llwyddiannus os derbyniwn nad yw ei rhagosodiadau yn rhai gwrthrychol, ond mai datganiadau goddrychol wir ydynt, sy'n gyson â datganiadau eraill a wneir oddi mewn i ddull arbennig o fyw – yn yr achos hwn, y gêm iaith o siarad am Dduw. Y mae cefnogwyr y Ddadl Ontolegol eisoes wedi ymrwymo i honiadau arbennig, yn enwedig yr honiad mai Duw yw'r un na ellir dirnad dim mwy nag ef, a phopeth a olyga hynny, ac felly y mae'r ddadl yn ystyrlon iddynt hwy. Fodd bynnag, gall realwyr wrthod yr honiad fod 'Duw yn bod o anghenraid' fel un diystyr na ellir ei wirio na'i anwirio, am nad yw'n cyfateb i'r sefyllfa y mae'n ei disgrifio. Ar y llaw arall, nid yw'r safbwynt gwrth-realaidd yn gofyn am wirionedd absoliwt, ond yn hytrach bod rhywbeth yn wir oddi mewn i gyd-destun arbennig. Ar y sail hon, er gwaethaf gwrthwynebiadau ei beirniaid, gellir ystyried y Ddadl Ontolegol yn llwyddiant os deellir hi fel mynegiant o'r hyn y mae'r crediniwr eisoes yn honni ei fod yn wir, yn hytrach na phrawf o fodolaeth real a gwrthrychol Duw, na ellir ei wadu'n rhesymegol.

Dibynna llwyddiant y Ddadl Ontolegol hefyd ar ba mor llwyddiannus ydyw fel prawf casgliadol nad yw'n tynnu ar dystiolaeth a phrofiad y bydysawd. Gall fod yn wir os oes derbyniad cyffredinol i'r rhagosodiad cyntaf. Fodd bynnag, er y gall y datganiad mai 'Duw yw'r un na ellir dirnad dim mwy nag ef' fod yn wir i *rai* credinwyr, nid yw, o angenrheidrwydd, yn wir i bawb ohonynt. Os gall credinwyr ddeall Duw mewn termau eraill neu ei ddisgrifio mewn ffyrdd eraill, neu os oes rhesymau da dros wrthod diffiniad Anselm, yna y mae'r ddadl yn methu. Dim ond os yw'r rhagosodiadau'n wir ac yn arwain at gasgliadau dilys y gellir dweud i'r Ddadl Ontolegol lwyddo i brofi bod bodolaeth Duw yn fater o anghenraid rhesymegol.

Tasg ysgrifennu

(a) Archiliwch oblygiadau hawlio bod Duw'n bod trwy ddiffiniad.

(b) I ba raddau y gellir yn rhesymol herio'r ddadl hon?

## 2. Natur ffydd

Dadleua John Hick fod ffydd yn debyg i ffordd y mae'r crediniwr yn ei cherdded yn hyderus, ond heb wybod i sicrwydd y bydd yn ei arwain i'r man lle y cred y cyflawnir ei ffydd. Dim ond yn eschatolegol y caiff y man hwnnw ei wirio - mewn geiriau eraill, dim ond ar ddiwedd y daith y profir ei fod yn wir - ond ffydd sy'n penderfynu sut y bydd y crediniwr yn trefnu'r daith. Y mae ffydd o'r math hwn yn agored iawn i feirniadaeth; fel y dadleua Richard Dawkins, '*Ffydd yw'r twyll mwyaf un, yr esgus dros beidio â meddwl'*. Mae ffydd fel pe bai'n osgoi'r angen am dystiolaeth, am brofi ac ailgloriannu damcaniaethau, a gellir meddwl y tanseilir ei honiadau yn ddifrifol gan ddiffyg cadarnhad. Rhaid inni, felly, fod yn gwbl glir beth a feddyliwn *yw* ffydd a sut y mae'n gwahaniaethu oddi wrth reswm. Y peth cyntaf i'w nodi yw nad un diffiniad sydd o ffydd. Ond gan fod yn rhaid inni ddechrau yn rhywle, gadewch inni ystyried bod ffydd yn wahanol i'r hyn a alwn yn wybodaeth. Pan fyddwn yn gwybod rhywbeth, byddwn yn awgrymu nad oes unrhyw gwestiwn nad yw'r peth hwnnw'n wir. Gall ffydd, ar y llaw arall, fod yn gyfeiliornus. Serch hynny, nid yw'r sawl y mae ganddynt ffydd grefyddol yn byw mewn stad gyson o amheuaeth ynglŷn â'r hyn y mae ganddynt ffydd ynddo. Fe wyddant fod credu ym modolaeth Duw yn wahanol mewn rhyw ffordd bwysig i'm gwybodaeth i am China, er na fûm erioed yno, am y gall ffydd, yn wahanol i wybodaeth, fod yn gyfeiliornus. Ond eto i gyd mae credinwyr yn dal wrth eu cred ym modolaeth Duw fel mater difrifol, ac y mae ganddynt resymau dros gredu'r hyn maent yn ei honni sy'n wir. Gall y posibilrwydd o brofiad crefyddol symud y crediniwr y tu hwnt i ffydd at rywbeth mwy pendant. Fel y dywed Peter Donovan: '*Pam yr holl sôn am ddadlau ar sail profiad crefyddol? Os ydych o ddifrif wedi cael profiad o Dduw, does dim rhaid i chi ddadlau, fe **wyddoch** ei fod yn real, a dyna ben arni.'*

Eto, nid eithrir credinwyr rhag gorfod cyfiawnhau eu credoau, a bu athronwyr yn ymdrin â hyn mewn gwahanol ffyrdd. Dadleuai Descartes y gall rheswm ddarparu sylfaen gadarn i ffydd; mynnai Anselm y byddai'r Prawf Ontolegol yn ei alluogi i fod yn sicr o fodolaeth Duw trwy ddefnyddio'i reswm hyd yn oed pe methai ei ffydd; yn ôl Kierkegaard y mae rheswm yn gwrth-ddweud ffydd grefyddol, yn ôl Aquinas, ychwanegu at ffydd y mae.

### (i) Mathau o ffydd

**Ffydd osodiadol** yw'r gred bod yna realiti gwrthrychol y rhoddwn iddo'r enw Duw ac y gallwn honni pethau amdano sy'n wrthrychol wir.

Y mae ffydd osodiadol yn debyg mewn rhai ffyrdd i'n gwybodaeth am bethau yn y byd. Er enghraifft, gall credu bod yna Dduw hollalluog a greodd y byd fod yn debyg, mewn rhai ffyrdd, i gredu bod arlywydd yn yr Unol Daleithiau - nid yw'r rhan fwyaf ohonom wedi cyfarfod ag ef, ond yr ydym yn credu ei fod yn bod oddi wrth yr adroddiadau a glywn amdano ar y cyfryngau - neu gredu bod China yn y lle yr awgryma'r atlas ei bod, er na fuom erioed yno. Credwn fod y pethau hyn yn wirioneddau gwrthrychol er nad oes gennym brofiad uniongyrchol ohonynt. Fodd bynnag, fe all na wna ffydd osodiadol lawer o wahaniaeth i fywyd neb, ac mae'n bosibl y byddai llawer o grefyddwyr mewn enw yn gwbl gyffyrddus â'r math hwn o ffydd. Nid yr un peth mohono â chredu ei bod yn bosibl cael perthynas bersonol â'r un Duw, a'r berthynas honno'n

gwneud gwahaniaeth i'r modd y mae credinwyr yn edrych ar y byd ac yn byw eu bywydau.

**Ffydd anosodiadol** yw ffydd felly – ymddiried yn Nuw hyd yn oed pan fo tystiolaeth neu brofiad fel pe bai yn erbyn hynny. Rhaid i ffydd o'r math hwn fod wedi ei seilio ar adnabyddiaeth bersonol o Dduw, nid yn unig ar dderbyn ffeithiau amdano. Fe all mai dyma'r math o ffydd sydd fwyaf ystyrlon i gredinwyr, oherwydd golyga ffydd nid yn unig ddal bod credoau arbennig yn wir, golyga hefyd fod mewn perthynas â gwrthrych y ffydd. Yn lle safbwynt beirniadol, rhesymegol y gwyddonydd sy'n mynnu tystiolaeth a chadarnhad, golyga ei mentro hi mewn cariad, ymddiriedaeth a gobaith. Fe'i nodweddir gan wybodaeth oddrychol. Golyga ffydd grefyddol o unrhyw fath ddyfalu ynglŷn â materion sydd y tu hwnt i'r hyn y gall y dull gwyddonol ei ddweud wrthym. Rhaid i'r crediniwr, felly, fedru dangos nad gobaith ofer mo'i ffydd.

Pwnc trafod

Pa fath o ffydd, yn eich barn chi, sy'n disgrifio ffydd crediniwr yr ydych yn ei adnabod, a pham? Pa fath o ffydd, yn eich barn chi, sydd fwyaf arwyddocaol? Beth yw peryglon y mathau gwahanol hyn o ffydd?

Defnyddia Basil Mitchell **ddameg y gwrthryfelwr a'r dieithryn** i ddarlunio natur ffydd anosodiadol.

*Ar adeg o ryfel, y mae gwrthryfelwr yn cwrdd â dieithryn sy'n honni mai ef yw arweinydd y gwrthryfel. Mae'r dieithryn yn annog y gwrthryfelwr i fod â ffydd ynddo beth bynnag yr amgylchiadau, hyd yn oed os gwêl ef yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n ymddangos fel pe baent yn gwrth-ddweud ei honiad. Mae'r gwrthryfelwr yn ymrwymedig i'w gred yng ngonestrwydd y dieithryn, hyd yn oed pan fo'i gyfeillion yn ei ystyried yn ffŵl. Hyd yn oed pan fo'r dieithryn fel pe bai'n gwrthod rhoi cymorth neu'n ymddwyn yn groes i'w fuddiannau, mae'r gwrthryfelwr yn dal i gredu ei fod o'i blaid, ac y mae ganddo resymau llethol dros lynu at ei gred. Rhoddodd ei gyfarfod cyntaf â'r dieithryn ddigon o hyder iddo i lynu at ei ffydd ynddo hyd yn oed pan fo pwysau'r dystiolaeth yn erbyn hynny.*

Nid yw ffydd o'r math hwn yn caniatáu i ddim cyfrif *yn derfynol* yn erbyn ei honiadau. Y mae hwn yn sylw pwysig. Nid yw'r gwrthryfelwr yn gwadu nad yw'r dieithryn *weithiau* yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n groes i'r honiadau a wna am fod 'ar yr un ochr ag ef'. Fodd bynnag, yr oedd y berthynas a sefydlodd ag ef ar eu cyfarfyddiad cyntaf yn un mor arwyddocaol nes y gall gredu yn ei onestrwydd er mor amwys ei ymddygiad.

Pwnc seminar

Trafodwch eich teimladau ynglŷn â'r ddameg hon, sy'n amlwg yn cyfateb i berthynas crediniwr â  Duw. A ydych yn teimlo bod ffydd y gwrthryfelwr yn beth i'w edmygu neu'n beth afresymol?

Mae **Dadl Gohiriad** Kierkegaard hefyd y dibynnu ar ffydd grefyddol a'r ymrwymiad sy'n mynnu nad yw'n cael ei gwrthod gan y sawl sy'n ei chredu hyd yn oed o dan sialens ddifrifol. Cymerodd credinwyr lam o ffydd sy'n eu galluogi i gadw at eu cred hyd yn oed pan nad yw dadleuon rhesymol yn ei chefnogi, neu pan mae profiad yn rhoi her o bwys iddi. Rhaid iddynt ohirio'r dystiolaeth a fydd yn cadarnhau bod eu ffydd yn wir, ond ni allant wastraffu amser yn gwneud hynny yn y bywyd hwn. Gellir deall dadl Kierkegaard hefyd fel atal barn. Gan na ellir yn y byd a'r bywyd hwn brofi bodolaeth Duw yn derfynol, a bod yn rhaid inni ddisgwyl am brawf digonol, cawn ein gorfodi i fyw fel pe na bai Duw'n bod. Fodd bynnag, golyga hyn na allwn byth benderfynu ar oblygiadau personol bodolaeth Duw, a gall fod i hynny ganlyniadau eschatolegol trychinebus. Felly, rhaid i'r crediniwr lamu mewn ffydd, hyd yn oed pan fo'r dystiolaeth yn brin. Math o ffyddiaeth yw hyn, y safbwynt na all rheswm werthuso credoau crefyddol, ond bod yn rhaid i'r crediniwr ei mentro hi a derbyn natur baradocsaidd ffydd.

Yn ôl Kierkegaard, yn ysgrifennu o dan y ffugenw Johannes Climatus, tra bod gwybodaeth wrthrychol:

*'yn cerdded rhagddi'n gyffyrddus ar hyd ffordd hir lledwirionedd heb gael ei chyffroi gan angerdd, cyfrifa gwybodaeth oddrychol bob oedi yn berygl marwol a bod y penderfyniad mor anfeidrol bwysig a chymaint brys amdano fel ei bod fel petai'r cyfle eisoes wedi mynd heibio.'*

Cynigiodd Kierkegaard hefyd y **Ddadl Angerdd** i ddangos nad yw rheswm yn sylfaen briodol i ffydd. Mae'n dadlau nad yw ffydd grefyddol yn ymwneud â sicrwydd gwybodaeth ond yn hytrach â dwyster angerdd, a po fwyaf y mentro a'r aberthu, mwyaf yn y byd angerdd ffydd. Pe bai cryfach tebygolrwydd fod Duw'n bod, byddai cryfder ffydd yn gwanhau'n anochel, ac yn llai gwerthfawr. Nid yw sicrwydd, felly, yn beth i'w chwennych mewn bywyd o wir ffydd.

Pwnc trafod ac ymchil:

Dywed James Sire:

*Gwneir i lawer o blant yr Unol Daleithiau gredu mewn Siôn Corn. Nid oes modd iddynt gyfiawnhau glynu at y gred hon wedi iddynt ddarganfod eu rhieni yn llenwi eu hosanau yn hwyr ar Noswyl Nadolig. Mewn achos o'r fath, byddai ganddynt reswm dros gredu nad yw Siôn Corn yn ddim ond myth.* A ydych yn meddwl y gellir gwneud yr un sylw am y gred yn Nuw? A fyddai credu'n angerddol mewn Siôn Corn yn beth i'w ddymuno? Os na, pam fod credu yn Nuw yn wahanol? Ym mha ffyrdd y gall rhai arweinwyr crefyddol fod yn euog o annog ffydd o'r math hwn? Ymchwiliwch ar y rhyngrwyd i hanes trychineb Jonestown. Ai canlyniad ffydd angerddol ynteu hunan-dwyll oedd hynny?

Yn wahanol i Kierkegaard, fodd bynnag, dadleua Dave Hunt (*In Defence of the Faith*, 1996) fod ar ffydd angen sylfaen gadarn o dystiolaeth a rhesymeg am ei bod yn ymwenud â materion o bwysigrwydd eschatolegol: 'Gellir *bod yn barod i ganiatáu rhywfaint o ansicrwydd mewn pethau bydol, ond dim ond ffŵl fyddai'n barod i ganiatáu'r amheuaeth leiaf mewn pethau a gaiff effaith dragwyddol arno,*' meddai. Yn ôl Hunt, yn achos Duw, os gweld yw credu, ni fyddai neb yn credu yn ei fodolaeth, oherwydd '*mewn goleuni anhygyrch y mae'n preswylio. Nid oes neb wedi ei weld, ac ni ddichon neb ei weld ...* ' (1 Timotheus 6:16). Y mae ffydd yn cysylltu â'r hyn sydd y tu hwnt i'r golwg, fel yr eglura awdur y Llythyr at yr Hebreaid: '*y mae ffydd yn ... sicrwydd o bethau na ellir eu gweld*' (Hebreaid 11:1). Dadleua Hunt '*fod yn rhaid i ffydd sefyll ar sail tystiolaeth sy'n annibynnol ar weld â'r llygaid ac ar gadarnhad gwyddonol, ond sy'n ddiwrthbrawf'.* Y mae'n gofyn, felly, am ymddiriedaeth, ac nid yw hynny'n bosibl ond trwy adnabyddiaeth bersonol o Dduw – nid trwy arweinwyr crefyddol na thestunau honedig awdurdodol nac athrawiaethau na honiadau. Dealltwriaeth anosodiadol yw hon eto, felly. Fe'i sylfaenwyd nid ar ffeithiau ond ar berthynas.

Cysylltodd Hunt reswm, tystiolaeth a ffydd yn un â'i gilydd mewn perthynas hollbwysig: '*Gall rheswm a thystiolaeth yn gyfreithlon ddangos y ffordd i ffydd – a rhaid iddynt wneud hynny. Yn wir, rhaid i ffydd beidio â mynd yn erbyn tystiolaeth a rheswm neu fe fydd yn afresymegol. Cymer ffydd gam y tu hwnt i reswm, ond dim ond i'r cyfeiriad a ddangosodd rheswm a thystiolaeth*'. Mae'n gwrthod y safbwynt 'llam o ffydd' am ei bod yn annog ymateb afresymegol ar sail dim mwy na theimladau, greddf a dewis personol di-sail. Yn ôl Hunt, '*Maes o law, fe brofir mai twyll yw'r gred honno, a bydd swigen yr ewfforia yn byrstio a bydd yr unigolyn yn waeth ei gyflwr nag o'r blaen'.*

**(ii) Bliks**

Pe baem yn mynnu credu ym modolaeth Siôn Corn ar ôl inni dyfu'n oedolion, heb ganiatáu unrhyw ddadl yn erbyn, a chan weld ym mhob tystiolaeth yn erbyn rhywbeth a oedd rywsut yn cefnogi parhad ein cred, byddai gennym yr hyn mae R M Hare yn ei alw yn **blik**. Blik yw ffordd o edrych ar y byd na ellir

ei gwirio na'i hanwirio, ond nad yw'n ddiystyr am ei bod yn dylanwadu ar y modd yr ydym yn dehongli'r byd ac ar ein ffordd o fyw. I ddarlunio'i ddamcaniaeth, defnyddiodd Hare ddameg y myfyriwr a'r athrawon coleg.


*Y mae myfyriwr gwallgof yn benderfynol bod ei holl athrawon am ei lofruddio. Mae ei gyfeillion yn ei gyflwyno i'r athrawon mwyaf addfwyn a pharchus y gallant ddod o hyd iddynt ac, wedi i bob un ohonynt adael, dywedant, 'Wyt ti'n gweld? Dydi o ddim am dy lofruddio di; mi siaradodd hefo ti yn y modd mwyaf cyfeillgar yn gynharach; rwyt ti'n siŵr o fod wedi dy argyhoeddi nawr?' Ond mae'r myfyriwr gwallgof yn ateb, 'Ie, ond bod yn gyfrwys oedd hynny; mewn gwirionedd, mae o'n cynllwynio yn fy erbyn i ar hyd yr amser, fel y gweddill ohonynt; dwi'n gwybod; mi fedraf ddweud wrthych.' Waeth faint o athrawon caredig a gyflwynir, yr un yw'r ymateb o hyd.*

Does dim byd a all wrth-droi cred y myfyriwr gwallgof. Yn yr un modd, yn ôl dadl Hare, does dim byd a all wrth-droi ffydd crediniwr. Os gofynnir iddo pam ei fod yn credu, fe ddywed yn syml, 'Am fy mod i'n credu' ac, am mai dyna yw natur blik, dyna'r cyfan y gall ei ddweud. Awgryma Hare bod gennym i gyd bliks. Dyma sut y disgrifia James Sire hwy:

*Yn sydyn, fe ofynna rhywun inni pam yr ydym yn gwneud rhywbeth, a does gennym ni ddim syniad. Dywedwn 'Rydw i yn credu,' wrth ein hunain. Rydw i'n credu llawer o bethau. O'r gred syml y bydd fy nghyfrifiadur yn gweithio pan fyddaf yn ei droi ymlaen i'r gred lawer mwy amheus bod brocer yn ddyn gonest neu fod fy nyweddi'n fy ngharu fel nad yw hi'n caru neb arall, fe sylfaenir popeth a wnaf ar gred. Weithiau byddaf yn cwestiynu fy nghredoau - yn enwedig y rhai cymhleth sy'n ymwneud â phobl, amcanion bywyd, crefydd a gwleidyddiaeth. Ond maen nhw bob amser gen i. Mae cred yn beth awtomatig.*

Deallai Wittgenstein ffydd fel proses o '*weld fel*', neu '*brofi fel*'. Yn union fel y gallwn weld patrwm ar dudalen a'i amgyffred mewn ffordd hollol wahanol i rywun arall, gallwn hefyd amgyffred y byd mewn ffordd wahanol. Oherwydd bod y byd yn grefyddol amwys, gellir amgyffred bod iddo arwyddocâd crefyddol, neu nad oes. Dehongla'r crediniwr dystiolaeth y byd mewn modd crefyddol, fe'i dehongla'r anghrediniwr mewn modd anghrefyddol. Dim ond yn eschatolegol y datrysir yr amwysedd. Ni all yr anghrediniwr na'r crediniwr argyhoeddi'r naill y llall mai ei ddehongliad ef o'r dystiolaeth sydd fwyaf rhesymol, am y byddant ill dau yn dehongli'r 'dystiolaeth' yn wahanol.

Tasg seminar



Dyma dwyll llygad 'hwyaden-cwningen' enwog Wittgenstein. Beth a welwch pan edrychwch ar y ddelwedd? Ai hwyaden a chwningen, y naill neu'r llall, neu na fedrwch ddweud? Ym mha ffyrdd y gall y darlun hwn fod yn gymorth i ddeall sut y mae credinwyr yn edrych ar y byd?

### (iii) Gwrth-realaeth ac ansylfaenoliaeth

Y mae safbwynt **realydd** at ffydd yn gweithio ar y rhagdybiaeth fod '*datganiad yn wir am ei fod yn cyfateb i'r amgylchiadau y mae'n ceisio'u disgrifio'* (diffiniad Peter Vardy). Fodd bynnag, nid yw gwrth-realaeth yn ceisio gwneud i ddatganiadau gyfateb i realiti gwrthrychol, ond mae'n honni fod '*gwirionedd yn dibynnu ar yr hyn y cytunir arno yn y gymuned, a bod hynny'n dibynnu nid ar ymchwil ddiduedd ond ar reolau'r gêm iaith'* (Vardy). Yn yr ystyr hon, perthyn honiadau crefyddol i'w gêm iaith eu hunain, a golygai eu profi'n wyddonol gam-ddeall sut y defnyddir hwy yn eu cyd-destun. Y mae pob gêm iaith yn hunangynhwysol ac nid yw honiadau a wneir o'u mewn yn gofyn am unrhyw gyfiawnhad. Felly, pan ddywed anffyddwyr nad yw Duw'n bod, nid gwrthwynebu credinwyr sy'n dweud fel arall y maent, ond yn hytrach dweud nad ydynt yn rhannu eu 'dull o fyw'. Nid yw, fodd bynnag, yn fater o bwy sy'n gywir a phwy sy'n anghywir.

Os blik yw ffydd grefyddol, ac na ellir felly eu gwirio na'i hanwirio, nid oes yn rhaid iddi gael cyfiawnhad athronyddol. Dyma egwyddor **ansylfaenoliaeth**, y gwrthwyneb i **sylfaenoliaeth** – y safbwynt bod yn *rhaid* cyfiawnhau credoau crefyddol trwy gyfeirio at gredoau eraill. I'r ansylfaenolwyr, y mae'r credoau crefyddol yn **gredoau sylfaenol yng ngwir ystyr y gair**; yng ngeiriau Alvin Plantinga, '*nid yw'n cael ei warantu gan warant a drosglwyddwyd o gredoau eraill'.*

Y mae Plantinga yn gwrthod sylfaenoliaeth ar y sail a ganlyn: os oes angen cyfiawnhau pob cred trwy gyfeirio at gredoau eraill bydd sawl datganiad (nid rhai crefyddol yn unig) yn annilys gan nad oes dim a all roi iddynt eu 'gwarant' ac ni all sylfaenoliaeth gwrdd â'i gofynion ei hun – hynny yw, ni ellir ei chyfiawnhau trwy gyfeirio at gredoau eraill. Felly, y mae cred grefyddol yn gred sylfaenol sydd ei hun yn sail i gredoau eraill ond nad oes angen ei phrofi na dangos ei bod yn wir.



Pwnc trafod:

A ydych yn meddwl *bod* credinwyr yn ceisio cyfiawnhau eu credoau? Os felly, a yw hynny am nad ydynt wedi sylweddoli mai credoau sylfaenol ydynt, neu am fod anghredinwyr yn gofyn iddynt eu cyfiawnhau?

### (iv) Menter ffydd

Felly, oni all rheswm gadarnhau bodolaeth Duw inni, beth sy'n dystiolaeth dda o blaid cred grefyddol? Ai'r math o brofiad yr ydym yn troi ato i gefnogi daliadau gwyddonol? Pan ddywedir bod cred grefyddol yn beth afresymegol, yr hyn a olygir yn aml yw ei bod yn anwyddonol, am fod honiadau gwyddonol yn cael eu diwygio os tystia profiad yn eu herbyn, waeth pa mor gryf y dystiolaeth gychwynnol o'u plaid. Mae credoau crefyddol yn llai parod i newid, a gwna hynny hwy'n agored i feirniadaeth.

Deallai William James ffydd fel 'yr *ewyllys i gredu*'. Er bod methodoleg gwyddoniaeth yn gofyn am wrthrychedd a niwtraliaeth, ni fyddwn yn cymhwyso hynny at bob agwedd o'n bywydau, a dadleuai James fod hyn yn arbennig o wir am gredoau crefyddol sy'n *anorfod* (yn anochel pa un a ydym yn credu neu beidio) a hefyd yn *dyngedfennol* (yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'n bywydau).

Honnai Blaise Pascal, y mathemategydd a'r athronydd o Ffrainc, fod anffyddiaeth yn safbwynt afresymegol. Mae'n mynnu rhesymeg ein bod yn dewis credu. Yn ôl Pascal, y mae dau ddewis posibl a phedwar canlyniad posibl:

| **Dewis/canlyniadau** | **Os cywir** | **Os anghywir** |
|---|---|---|
| **Credu bod Duw'n bod** | Gwynfyd tragwyddol – elw i gyd | Difodiant – dim elw; dim colled |
| **Peidio â chredu bod Duw'n bod** | Difodiant – dim elw; dim colled | Cosb dragwyddol – colled i gyd |

Dadleua Pascal fod yn rhaid i rywun rhesymol sy'n wynebu'r dewis hwn ddewis credu, ac er y golyga hynny beth aberth – ufuddhau i ddeddfau moesol, er enghraifft – pris bychan i'w dalu yw hynny o ystyried y gwobrau helaeth y mae'n bosibl eu hennill. Ffolineb llwyr fyddai mentro'r posibilrwydd erchyll o gosb dragwyddol trwy gamblo nad yw Duw'n bod. Felly, golyga theistiaeth chwarae'n saff; dyna'r unig ddewis i rywun rhesymol.

Tasg seminar:

Yn eich grŵp, enwch dri chryfder a thri gwendid ym Menter Pascal a defnyddiwch hwy i ateb y cwestiwn 'I ba raddau y mae Menter Pascal yn argyhoeddi?' (DS - nid cwestiwn fel y ceir mewn arholiad yw hwn).

Tasg ysgrifennu:

(a) Esboniwch **ddwy** ffordd o ddeall y berthynas rhwng ffydd a rheswm.

(b) Aseswch pa un o'r ddwy ffordd hyn sydd fwyaf argyhoeddiadol.

# Pwnc 2: A yw Iaith Grefyddol yn Ystyrlon?

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn byddwch yn gallu:

- Deall natur y problemau ynglŷn ag iaith grefyddol
- Deall y cysyniad o ystyrlon a diystyr
- Esbonio natur iaith wybyddol ac iaith anwybyddol
- Archwilio a gwerthuso'r Egwyddor Wirio
- Archwilio a gwerthuso'r Egwyddor Anwirio
- Deall y cysyniad o Via Negativa
- Esbonio'r cysyniadau o iaith unystyr ac iaith amwys
- Archwilio materion yn ymwneud â chyfatebiaeth, symbol a myth
- Deall ystyr y Ddamcaniaeth Gêm Iaith
- Gwerthuso'r dadleuon dros ac yn erbyn defnyddio iaith grefyddol a'i dilysrwydd

**Natur Iaith Grefyddol**

Mae iaith grefyddol yn ymwneud â'r modd y byddwn yn siarad am Dduw, am ffydd ac am gred grefyddol. Mae'n cynnwys:

- Disgrifiad o natur Duw ac agweddau arno, e.e. 'hollalluogrwydd'
- Disgrifiad o gred grefyddol, e.e. 'y Farn Olaf'
- Termau crefyddol technegol, e.e. 'pechod', 'bendith', 'gras'
- Geiriau cyffredin y mae iddynt ystyron penodol crefyddol, e.e. 'da', 'cariad'

Y prif anhawster gydag iaith grefyddol yw ei bod yn anodd defnyddio geiriau dynol, daearol i ddisgrifio Duw trosgynnol sydd uwchben a'r tu hwnt i bob profiad dynol. Mae geiriau dynol yn annigonol, ac y mae hynny'n creu camddealltwriaeth a dryswch. Parodd hyn i rai pobl awgrymu bod pob ymgais i sôn yn ystyrlon am Dduw yn amhosibl.

***Iaith wybyddol ac iaith anwybyddol***

Fodd bynnag, y mae rhai cysyniadau a syniadau crefyddol y gellir eu disgrifio'n gywir mewn termau dynol – dyma pryd y defnyddir iaith wybyddol (realaidd), hynny yw:

- Datganiadau ffeithiol y gellir profi, er enghraifft, trwy ymchwil empirig, eu bod yn wir neu'n anwir, e.e. '*Y mae'r Pab yn Babydd'*
- Datganiadau ac ynddynt gynnwys ffeithiol ystyrlon (i gredinwyr, o leiaf), e.e. *'Y mae Duw'n fy ngharu'*

Yn *Theology and Falsification*, disgrifiodd Anthony Flew iaith wybyddol fel un sy'n cynnwys:

*'… gorchmynion cyfrin, mynegi dyheadau, ebychiadau dirgel, moeseg gudd, a phopeth arall ond haeriadau'.*

Y mae termau crefyddol eraill y gellir eu deall, er nad ydynt yn ffeithiol wir, mewn ffyrdd eraill – e.e. fel symbolau, mythau neu orchmynion moesol. Gelwir hyn yn iaith anwybyddol (wrth-realaidd) ac y mae a wnelo â datganiadau sy'n mynegi gwirionedd crefyddol i'r credadun, e.e. y mae dweud mai '*Iesu yw Mab Duw*' yn wir i Gristnogion.

Pwnc trafod:
Meddyliwch am enghreifftiau eraill o iaith grefyddol wybyddol ac iaith grefyddol anwybyddol.

**A all iaith grefyddol fyth fod yn ystyrlon?**

Eto i gyd, anaml y bydd iaith grefyddol yn cynnwys datganiadau ffeithiol y gellir eu profi neu eu gwirio'n empirig. A yw, felly, o unrhyw werth? Y mae dwy brif egwyddor y gellir eu defnyddio i benderfynu gwerth datganiad.

***Yr Egwyddor Wirio***

Yn y 1920au daeth grŵp o athronwyr a adwaenir fel Cylch Fienna yn rhan ddylanwadol o fudiad a elwir yn Bositifiaeth Resymegol, ac oddi wrtho ef y daeth yr Egwyddor Wirio. Dan ddylanwad damcaniaeth Ludwig Wittgenstein o *iaith fel llun,* awgrymodd y grŵp hwn fod datganiad yn ystyrlon os gellir ei ddiffinio neu ei ddarlunio yn y byd real. I iaith fod yn ystyrlon, meddent, rhaid iddi ddilyn rhai egwyddorion gwyddonol a mathemategol fel y gellir ei gwirio trwy brawf empirig neu resymeg neu brofiad. I fod yn ystyrlon, rhaid i ddatganiad gyflawni un neu fwy o'r meini prawf a ganlyn:

- ***Datganiadau dadansoddol*** – gwir trwy ddiffiniad (e.e. '*y mae cylch yn grwn*'). Datganiadau *a priori* yw'r rhain sy'n wir am eu bod yn cynnwys eu gwiriad ynddynt eu hunain.
- ***Datganiadau mathemategol***
- ***Datganiadau synthetig*** – gwir neu anwir trwy brawf empirig. Datganiadau *a posteriori* yw'r rhain, e.e. '*y mae adar yn hedfan*'. Gellir cynnwys yn ystyrlon hefyd ddatganiadau damcaniaethol, megis '*y mae bywyd ar blanedau eraill*' am y gellir eu gwirio neu eu hanwirio rywbryd yn y dyfodol.

Pwnc trafod
A yw datganiadau megis '*câr dy gymydog'* neu '*arian yw gwreiddyn pob drwg'* yn ystyrlon o dan y meini prawf hyn?

Ar y sail hon, daeth Cylch Fienna i'r casgliad fod datganiadau crefyddol yn ddiystyr am nad oeddent yn bodloni'r un o'r meini prawf hyn.

Yn *Language, Truth and Logic*, ysgrifennodd A.J. Ayer nad yw bodolaeth Duw, am na ellir ei phrofi trwy resymeg, ddim hyd yn oed yn debygol. Am mai term metaffisegol yn cyfeirio at fod trosgynnol yw 'duw', ni ellir profi bodolaeth Duw trwy resymeg na rheswm. Gan hynny, dadleua fod pob datganiad am Dduw yn ddiystyr. Ysgrifenna:

'*Nid yw'r syniad o fod nad yw ei briodoleddau hanfodol yn empirig yn syniad dealladwy o gwbl'.*

Mae'n mynd ymlaen i awgrymu bod disgrifiadau crefyddol o'r enaid, bywyd ar ôl marwolaeth a nefoedd hefyd yn ddiystyr, am na ellir eu gwirio. Yn yr un modd, mae'n gwrthod honiadau pobl sy'n dweud iddynt gael profiad crefyddol am na ellir gwirio'n empirig dystiolaeth o'r fath.

'*Mae'r ffaith fod pobl yn cael profiadau crefyddol yn ddiddorol o safbwynt seicoleg, ond nid yw'n golygu o gwbl fod y fath beth yn bod â gwybodaeth grefyddol.*'

***Beirniadu'r Egwyddor Wirio***


Fodd bynnag, y mae anawsterau ynglŷn â'r Egwyddor Wirio ei hun, oherwydd y mae'n amlwg bod ystyr i lawer o'r datganiadau y mae hi'n ei hystyried yn ddiystyr. Er enghraifft:

- Ni ellir gwirio'n empirig ddatganiadau sy'n mynegi barn neu emosiwn, e.e. *'Rwy'n dy garu di*', ond y maent, serch hynny, yn ystyrlon.
- Ni ellir gwirio'n empirig ddatganiadau moesegol a moesol, e.e. '*Na lofruddia'*, ond y maent yn sicr yn ystyrlon.
- Ni ellir bob amser llwyr wirio deddfau gwyddoniaeth - e.e. pan ddywedwn fod '*disgyrchiant bob amser yn peri i bethau syrthio i'r ddaear'*, ni wyddom a fydd hyn bob amser yn wir. Eto i gyd, mae'r datganiad hwn yn dal yn ystyrlon.
- Y mae datganiadau am hanes, e.e. '*Yn 1066 y bu* Brwydr *Hastings'* yn ystyrlon er nad oes neb yn fyw sy'n medru honni bod yn dyst i'r digwyddiad.
- Yn olaf, ni ellir gwirio'r Egwyddor Wirio ei hun, am nad oes profiad empirig a all brofi ei gwirionedd.

I ateb y beirniadaethau hyn, awgrymodd Ayer ffurf 'gref' a ffurf 'wan' ar yr Egwyddor Wirio:

- Gwiriad cryf yw pan nad oes unrhyw amheuaeth nad yw'r datganiad yn wir, e.e. '*Gwyrdd yw glaswellt'*.
- Gwiriad gwan yw pan nad oes sicrwydd absoliwt ond bod tebygolrwydd cryf bod y datganiad yn wir oherwydd y dystiolaeth sydd ar gael, e.e. '*William y Concwerwr a enillodd Frwydr Hastings'.*

‘*Dim ond os gellir sefydlu ei wirionedd yn derfynol y gellir gwirio datganiad yn yr ystyr gref ... ond gellir ei wirio yn yr ystyr wan os gall profiad beri ei fod yn debygol.’* Ayer



Pwnc seminar:
Sut y gwahaniaethodd A J Ayer rhwng gwiriad cryf a gwiriad gwan?
A oedd yn iawn?
A yw’r Egwyddor Wirio yn argyhoeddi?

Yn ddiweddar, fodd bynnag, dechreuodd ysgolheigion ddadlau’n wahanol. Yn *Holding Fast to God*, dadleua Keith Ward y gellir mewn egwyddor brofi bodolaeth Duw oherwydd:

*‘Pe bawn i’n Dduw gallwn wirio gwirionedd fy modolaeth fy hun’.*

Dywed John Hick yn *Faith and Knowledge* fod llawer o honiadau iaith grefyddol, e.e. ‘*ganed Iesu ym Methlehem*’ yn honiadau sy’n ymwneud â hanes a’u bod felly’n ystyrlon am y gellir eu gwirio mewn egwyddor. Darlunia hyn yn ei *Parable of the Celestial City*. Yma, y mae dau’n cerdded ar ffordd. Cred y naill ei bod yn arwain i’r Ddinas Nefol; cred y llall nad yw’n arwain i unman. Rhaid iddynt ddatrys sawl anhawster ar eu taith. Ystyria’r naill mai Duw a’u hanfonodd i’w paratoi at fyw yn y Ddinas Nefol; ystyria’r llall mai hap a damwain ydynt. Dim ond ar derfyn y daith y cânt wybod y gwirionedd. Mae Hick yn galw hyn yn ‘wiriad eschatolegol’. Er bod pen y daith yn anhysbys, y mae’r daith ei hun a’u credoau hwy am ei phen draw, yn ystyrlon i’r teithwyr.

***Yr Egwyddor Anwirio***

Arweiniodd yr amheuon ynglŷn â’r Egwyddor Wirio at brawf newydd – yr Egwyddor Anwirio, sy’n gofyn beth a fyddai’n profi bod datganiad iaith grefyddol yn anwir. Yn *Faith and Knowledge* dywed Hick:

*‘Er mwyn dweud rhywbeth a all, o bosibl, fod yn wir, rhaid inni ddweud rhywbeth a all, o bosibl, fod yn anwir’.*

Cymer Anthony Flew y safbwynt gwyddonol fod gwirio gwirionedd rhywbeth yn golygu gwirio’i anwiredd hefyd:

*‘Beth y byddai’n rhaid iddo ddigwydd neu’n rhaid iddo fod wedi digwydd i brofi i chwi nad yw cariad Duw neu Dduw ei hun ddim yn bod?’*

Mae Flew yn honni fod credinwyr yn aml yn euog o wrthod tystiolaeth yn erbyn bodolaeth neu gariad Duw a chuddio, yn hytrach, y tu ôl i atebion annelwig, e.e. ‘*y mae cariad Duw’n annealladwy*’ pan na allant esbonio paham fod Duw fel pe bai’n caniatáu i bethau ofnadwy ddigwydd. Mae’n dadlau fod credinwyr o’r fath yn peri i’w diffiniad o Dduw:


‘… *farw o fil o amodau’.*

Defnyddia ddameg enwog John Wisdom, *Parable of the Gardener*, i danlinellu sut y deil credinwyr i wrthod pob tystiolaeth yn erbyn bodolaeth Duw. Yn y stori hon, y mae dau ddyn mewn gardd. Mae un yn gweld planhigion yn tyfu ymhlith y chwynac yn credu bod cynllun i'r ardd. Mae'r llall yn dadlau nad oes garddwr, am y byddai garddwr wedi lladd y chwyn. Mae'r ddau'n archwilio'r ardd ac yn darganfod rhai pethau sy'n awgrymu bod garddwr, a phethau eraill sy'n awgrymu nad oes. Yn y diwedd, mae un yn mynnu bod y garddwr yn anweladwy ac yn anghyffwrdd. Hola'r llall beth yw'r gwahaniaeth rhwng garddwr anweladwy a dim garddwr o gwbl.

Honna Flew fod iaith grefyddol yn ddiystyr am nad yw credinwyr yn caniatáu i'r un o'u credoau am Dduw gael ei phrofi'n anwir:

*'I bobl anghrefyddol fe ymddengys yn aml nad oes unrhyw ddigwyddiad posibl ... y byddai pobl grefyddol soffistigedig yn cyfaddef ei fod yn rheswm digonol dros gydnabod ... "Nid yw Duw, felly, yn ein caru mewn difrif"'.*

Yn ôl Flew, os na chaniateir i ddim gwrthbrofi honiad megis '*Y mae Duw'n ein caru fel y mae tad yn caru ei blant*', yna y mae'r honiad yn ddiystyr gan fod pob dim, fe ymddengys, yn gyson ag ef, hyd yn oed marwolaeth miloedd o blant mewn daeargryn. Mae'n dadlau bod yr anfodlonrwydd hwn ar ran credinwyr i ddygymod ag unrhyw sialens i'w safbwyntiau yn ddiwedd ar unrhyw ddefnydd ystyrlon o iaith grefyddol.



Pwnc seminar

A yw'r Egwyddor Anwirio yn argyhoeddi?
A yw Flew yn iawn am gredinwyr?

***Beirniadu'r Egwyddor Anwirio***

Nid yw pob ysgolhaig, fodd bynnag, yn cytuno â Flew.  Honna R M Hare fod credinwyr yn defnyddio iaith grefyddol mewn modd unigryw y mae'n ei alw'n '*bliks*':

'*Ffyrdd o edrych ar y byd nad ydynt mewn egwyddor yn wiriadwy nac yn anwiriadwy ond sy'n ddulliau o wybod y gellir yn briodol eu galw yn ddulliau 'dilys' neu'n ddulliau 'dychmygol'.*

Mae'n rhoi enghraifft o fyfyriwr sy'n argyhoeddedig bod athro gwallgof yn cynllwynio i'w ladd. Mae'r myfyriwr yn gwrthod pob tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Mewn gair, y mae ei benderfyniad i weld y byd mewn ffordd arbennig yn '*blik*' – mae'n gred ystyrlon iddo ef er nad yw'n empirig wir.

Yn ôl Hare, mae credinwyr yn defnyddio iaith grefyddol i fynegi cysyniadau sy'n bwysig iddynt hwy ac sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol, ac y gellir ei weld yn empirig, i'w bywyd personol. Enghraifft dda yw datganiad megis '*Iesu yw fy Ngwaredwr*'. Y mae'r datganiadau hyn, felly yn ystyrlon.


Yn *The Parable of the Partisan and the Stranger* tanlinella Basil Mitchell y ffaith fod llawer o gredinwyr, er derbyn y gellir herio eu credoau, yn dal i'w credu hyd yn oed os bydd tystiolaeth lethol yn eu herbyn. Yn y ddameg, y mae gwrthryfelwr yn cwrdd â dieithryn y cred ei fod yn arweinydd cudd y gwrthryfel. Weithiau, ymddengys y dieithryn fel pe bai'n gweithio yn erbyn y gwrthryfel, ond dywedir wrth y gwrthryfelwr mai rhan o gynllun y dieithryn yw hynny. Mae'r gwrthryfelwr yn dal i gredu'r dieithryn am fod ganddo ffydd ynddo, er bod ei gyfeillion yn anghytuno'n ffyrnig. Mae'n glynu at ei gred hyd yn oed pan fo'r dystiolaeth yn aneglur.

Geilw Mitchell y credoau hyn yn '*erthyglau arwyddocaol o ffydd'* y gŵyr y credadun y gellir eu herio ond, oherwydd ei ffydd, na all byth ganiatáu i dystiolaeth eu hanwirio.

Aeth Richard Swinburne yn *The Coherence of Theism* ymhellach, a dadlau bod i lawer datganiad o'r fath wir ystyr er na ellir eu gwirio na'u hanwirio'n empirig:

*'Y mae digonedd o enghreifftiau o ddatganiadau sydd, ym marn rhai pobl, yn ddatganiadau ffeithiol, na ellir, fe ymddengys, eu cadarnhau na'u gwrthbrofi trwy sylwebu. Er enghraifft: Mae rhai o'r teganau sydd, i bob golwg, yn aros yn y cwpwrdd pan fo pawb yn cysgu, yn codi a dawnsio yng nghanol y nos pan nad oes neb yn edrych, ac yna'n dychwelyd i'r cwpwrdd, heb adael unrhyw olion o'u gweithgaredd'.*

Yn olaf, dadleuodd R. B. Braithwaite fod iaith grefyddol yn ymwneud â'r modd y bydd pobl yn ymddwyn at ei gilydd ac y gall fod yn ystyrlon am ei bod yn mynegi bwriad i ddilyn dull arbennig o ymddwyn.



Pwnc seminar:
Aseswch gryfderau a gwendidau'r safbwyntiau ysgolheigaidd hyn. Safbwynt pa ysgolhaig sydd, yn eich barn chi, y nesaf at fod yn gywir? Pam?

***Y Via Negativa***

Y *Via Negativa* yw'r farn y gellir dod o hyd i'r gwirionedd am Dduw trwy siarad yn negyddol amdano – y ffordd i ddarganfod sut un yw Duw yw darganfod yn gyntaf sut un nad ydyw. Trwy ddiystyru'r hyn nad ydyw, fe ddown o hyd i'r hyn ydyw. Gelwir hyn yn egwyddor negyddu.

Dadleuodd Thomas Aquinas fod y *Via Negativa* yn pwysleisio na ellir adnabod Duw. Cyn y gellir siarad yn gadarnhaol am rywbeth, meddai, y mae angen gwrthrych. Ni all Duw – sydd uwchben popeth ac felly'n ddirfodol wahanol i bopeth – fod yn wrthrych. Felly, y mae'n llawer mwy ystyrlon i siarad yn negyddol, yn hytrach na chadarnhaol, am ei rinweddau.

Yn sicr, y mae'r safbwynt hwn yn osgoi llawer o'r anawsterau sy'n codi o ddefnyddio iaith ddynol i ddisgrifio rhinweddau Duw. Ysgrifennodd Peter Cole yn *Philosophy of Religion*:

*'… trwy wadu pob disgrifiad o Dduw daw pobl i ddirnad a phrofi Duw yn lle anghredu ac amau'.*

***Beirniadu'r Via Negativa***

- Nid yw'n caniatáu disgrifio Duw mewn termau ffeithiol.
- Ni all y *Via Negativa* wahaniaethau rhwng theistiaeth ac anffyddiaeth am fod dweud na ellir sôn am Dduw ond mewn negyddion yn golygu llwyr wadu bodolaeth Duw.
- Mae credinwyr bob amser eisiau sôn yn gadarnhaol, nid yn negyddol, am Dduw.



Pwnc trafod

A yw'r Via Negativa yn offeryn defnyddiol at ddeall iaith grefyddol?

**Cysyniadau o Iaith Grefyddol**

Mewn iaith grefyddol y mae rhai geiriau nad ydynt bob amser i'w cymryd yn llythrennol a gall ystyr geiriau ac ymadroddion ddibynnu yn aml ar ddeall y ffordd y defnyddir iaith grefyddol. Y mae sawl posibilrwydd:

***(i) Iaith unystyr***

Iaith *unystyr* yw defnyddio geiriau yn eu hystyr bob dydd. Mewn iaith grefyddol, golyga hyn ddefnyddio, er enghraifft, yr ymadroddion '*cariad Duw* ' a '*chariad Sara*' i ddynodi'r un peth. Mae'r dull hwn o ddefnyddio iaith yn ei gwneud hi'n bosibl inni ddeall Duw: yr ydym yn deall cariad Duw am ein bod yn deall cariad dynol. Fodd bynnag, nid yw iaith unystyr yn gweithio bob amser oherwydd os ydym yn cyfeirio at Dduw yn yr un modd ag y cyfeiriwn at ddynolryw, nid yw'n bosibl inni wahaniaethu rhyngddynt. Ysgrifennodd Aquinas yn y *Summa Theologica*:

'*Ni pherthyn yr un enw i Dduw yn yr un ystyr ag y perthyn i greaduriaid; er enghraifft, y mae doethineb yn rhinwedd mewn creaduriaid, ond nid yn Nuw'.*

***(ii) Iaith amwys***

Iaith amwys yw defnyddio gair mewn ffordd gwbl wahanol. Gallwn ddefnyddio geiriau bob dydd i ddisgrifio Duw, ond gan fod natur Duw mor wahanol i natur dynolryw yr ydym, wrth ddweud bod Duw'n 'gariadus' neu'n 'gyfiawn', yn defnyddio'r geiriau hyn mewn ffordd wahanol. Nid yw cariad Duw o'r un natur nac ansawdd â chariad dynol. Y mae iaith amwys, felly, yn ddefnyddiol i danlinellu sut y mae rhinweddau Duw yn debyg, ac eto'n wahanol, i rinweddau dynol. Yn aml, fodd bynnag, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd, onid yn amhosibl, deall Duw. Yn ôl Aquinas:

'*Ar y llaw arall, ni chymhwysir geiriau mewn ystyr gwbl amwys at Dduw nac at greaduriaid, fel y dywed rhai. Oherwydd pe bai felly, mae'n dilyn na ellid oddi wrth greaduriaid wybod na dangos dim oll am Dduw'.*



Pwnc trafod:
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng iaith unystyr ac iaith amwys? Rhowch enghreifftiau.

***(iii) Iaith gyfatebol (Cyfatebiaeth)***

Defnyddia iaith gyfatebol dermau dynol megis 'da' a 'chariad' a'u cymhwyso mewn ffordd sy'n debyg, ond heb fod yn union yr un fath, at Dduw. Felly, y mae cariad Duw'n debyg i gariad dynol ond yn llawer iawn gwell. Yn y modd hwn, y mae cyfatebiaeth yn galluogi pobl i siarad yn ystyrlon am Dduw trosgynnol a defnyddio termau dynol i ddisgrifio, mewn ffordd gymesur, ei rinweddau. Yn *A Dictionary of Christian Theology*, ysgrifenna Burrell: '*Cyfatebiaethau yw cyffelybiaethau cymesur, sy'n cydnabod hefyd nodweddion annhebyg'.*

Er nad yw Duw yn fod megis bodau eraill, mae Aquinas yn mynnu y gallwn, serch hynny, resymegu amdano trwy ddefnyddio geiriau mewn ffordd anllythrennol sy'n dangos bod perthynas rhwng geiriau a ddefnyddir yn y naill ystyr o'i chyferbynnu â'r llall. Geilw Aquinas hyn y '*graddoliad sydd mewn pethau'*. Daeth holl ddaioni a chariad dynolryw, meddai, yn y lle cyntaf oddi wrth Dduw. Felly, y mae '*perthynas gyfatebol*' rhwng Duw a'r ddynolryw. Perthyn i Dduw holl rinweddau dynolryw, ond eu bod yn fwy ac yn berffeithiach ynddo ef. Yr ydym ni yn deall Duw oherwydd ein profiad o'r rhinweddau dynol hyn:


'*Ymhlith bodau dynol y mae rhai sy'n fwy a rhai sy'n llai daionus, cywir, mawrfrydig ac ati ... felly, mae'n rhaid bod hefyd rywbeth sy'n achos bodolaeth bob bod dynol a phob daioni a pherffeithrwydd arall ynddynt; galwn hwn yn Dduw'.*

Y mae dau fath o gyfatebiaeth:

- *Cyfatebiaeth cymesuredd* - perthyn pob rhinwedd yn annherfynol i Dduw ac yn gymesur i ddynolryw; er enghraifft y mae bywyd gan bryfyn, gan fod dynol a gan Dduw; y mae perthynas gymesur rhyngddynt. Ni allwn byth llwyr ddeall Duw, ond gallwn o leiaf ddechrau deall ei natur.
- *Cyfatebiaeth priodoliad* – Duw yw achos popeth da yn y ddynolryw; felly, ein nodweddion ni yw nodweddion Duw, ond eu bod ar raddfa uwch. Soniodd John Hick am gyfatebiaeth 'tuag i fyny' – mae ci yn ffyddlon i'w feistr, mae bod dynol yn ffyddlon i Dduw, a chyfatebiaeth 'tuag i lawr' – mae cariad dynol yn adlewyrchiad gwan o gariad Duw.

Yn *Philosophy and the Christian Faith*, nododd Colin Brown:

'*Rhaid plygu'r gwirionedd dwyfol a'i fynegi mewn geiriau dynol a delweddau meidrol'.*



Pwnc seminar
Rhowch enghreifftiau o gyfatebiaeth cymesuredd ac o gyfatebiaeth priodoliad.
A yw cyfatebiaeth yn ddadl effeithiol?

Aeth Ian Ramsey ymhellach, gan son am gyfatebiaeth yn nhermau '*modelau a goleddfeiriau*':

- Model yw cyfatebiaeth sy'n ein cynorthwyo i ddweud rhywbeth am Dduw, e.e. '*cariad yw Duw*'. Y model yw'r gair 'cariad'. Gwyddom beth y mae cariad yn ei olygu mewn termau dynol. Wrth gymhwyso'r gair at Dduw, y mae'n rhoi model i ni er mwyn i ni ddeall cariad Duw.
- Goleddfair yw gair sy'n addasu neu'n gwella'r model i gynyddu ein dealltwriaeth o Dduw. Gwna hynny trwy osod nodweddion Duw ar lefel uwch, e.e. trwy ychwanegu'r goleddfair fod '*Duw yn gariad anfeidrol*'. Yn y dull hwn, gallwn feddwl am gariad Duw mewn modd dyfnach a mwy ystyrlon.

Tasg ysgrifennu :

(a) Esboniwch y safbwynt na ellir deall iaith grefyddol ond yng nghyd-destun cred grefyddol.
(b) 'Diystyr yw holl honiadau iaith grefyddol'. Gwerthuswch yr honiad hwn.

### *(iv)  Iaith symbolaidd*

Symbol yw rhywbeth sy'n dynodi'r cysyniad y mae'n cyfeirio ato ac yn cyfrannu at ystyr y cysyniad hwnnw. Yn *A Handbook of Christian Theology* diffinia Erika Dinkler-von Schubert symbol fel:

*'Patrwm neu wrthrych sy'n cyfeirio at realiti metaffisegol anweledig ac yn cyfrannu ohono'.*

Gall symbolau fod yn eiriau, yn lluniau, yn wrthrychau neu'n weithredoedd. Er enghraifft, y mae baner genedlaethol yn symbol o hunaniaeth cenedl, modrwy briodas yn symbol o gariad a chyfnewid modrwyau mewn priodas yn symbol o gariad tragwyddol. Mae symbolau'n bethau pwysig iawn yn y rhan fwyaf o grefyddau. Er enghraifft, dynodir Cristnogaeth gan groes, sy'n cyfrannu at y cysyniad Cristnogol bod marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist yn arwain at iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol. Gallai datganiadau symbolaidd gynnwys dywediadau enwog Iesu, '*Myfi yw bara'r bywyd*' a '*Myfi yw'r bugail da*'.



Pwnc trafod
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng symbol ac arwydd?

Y mae symbolau'n mynd y tu hwnt i wybodaeth a dealltwriaeth ffeithiol arferol ac ni ddylid eu dehongli'n llythrennol. Y mathau mwyaf cyffredin o iaith symbolaidd mewn crefydd yw mythau a throsiadau. Yn ôl Archesgob Caergaint, Rowan Williams:

*'Fel pob trafodaeth ddynol ddifrifol arall, y mae iaith grefyddol yn gofyn am sylfaen symbolaidd'.*

Yn *Systematic Theology* cefnogodd Paul Tillich iaith symbolaidd mewn crefydd, gan honni ei bod yn ddull cadarnhaol o fynegi natur Duw yn nhermau'r hyn a alwodd yn:

'… *sylfaen ein bod*', neu '… *yr hyn sydd o'r pwys eithaf inni'.*

Yn *Dynamics of Faith* dywedodd mai:

'*Dim ond iaith symbolaidd a all fynegi'r eithaf, oherwydd y mae'n trosgynnu gallu unrhyw realiti cyfyngedig i'w fynegi'n uniongyrchol*'.
Yn *Holding Fast to God*, dywedodd Keith Ward fod symbol yn hanfodol i iaith grefyddol a'i fod wedi'i wreiddio yn ymwybyddiaeth pobl o ddimensiwn dynol eu profiad:

*'Duw' yw'r dyfnder dirgel hwnnw a gyfryngir mewn symbolau a digwyddiadau arbennig yn ein bywydau'.*

Un o'r mathau pwysicaf o iaith symbolaidd yw myth. Stori yw myth sy'n defnyddio symbolau a delweddau i fynegi gwirionedd pan nad oes neb yn gwybod beth a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Ystyria llawer o ysgolheigion mai mythau yw rhai rhannau o'r Beibl - stori'r Creu a stori Arch Noa, er enghraifft - nid cofnodion ffeithiol cywir o ddigwyddiadau ond mythau a ysgrifennwyd i esbonio pethau na wyddai awduron y Beibl sut i'w hesbonio. Dywed Millar Burrows yn *An Outline of Biblical Theology*:

*'Mynegiant symbolaidd, cyffredinol o wirionedd na all y meddwl dynol ei ddirnad yn glir a chyflawn, dim ond cael cipolwg annelwig arno, ac na all felly ei fynegi'n ddigonol nac yn gywir – dyna yw myth'.*

Pwnc seminar/ ymchwil
Pa ddigwyddiadau Beiblaidd eraill y byddech yn eu hystyried yn fythau - pam?
A ddylai Cristnogion gredu bod y Beibl i gyd yn llythrennol wir?
Sut y gallwn wybod pa rannau o'r Beibl sy'n ffaith a pha rannau sy'n fyth? A oes ots?

Yn achos iaith grefyddol, pwrpas myth yw cyfleu cysyniadau sydd y tu hwnt i'n deall neu na ellir eu hesbonio mewn termau bob dydd – er enghraifft, sut y creodd Duw y byd? Yn yr un modd, defnyddia'r ysgrythur ei hun eiriau mytholegol i ddisgrifio Dydd y Farn:

'*Oherwydd pan floeddir y gorchymyn, pan fydd yr archangel yn galw ac utgorn Duw yn seinio, bydd yr Arglwydd ei hun yn disgyn o'r nef ... yna byddwn ni, y rhai byw a fydd wedi eu gadael, yn cael ein cipio i fyny... i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr*'.
1 Thessaloniaid 4:16.

***Beirniadu Symboliaeth a Myth***

Y prif anhawster o ddefnyddio symbol a myth mewn iaith grefyddol yw y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Anodd gwybod eu hunion ystyr. Felly:

- Gellir colli'r ystyr wreiddiol
- Gall gwrthrychau symbolaidd ddod yn ganolbwynt addoliad, e.e. creiriau'r saint
- Gall symbolau a mythau fod wedi dyddio.

Yn ôl Tillich:

'*Y mae angen ailddarganfod mewn dull dealladwy i'n hoes ni y cwestiynau y mae'r symbolau Cristnogol yn eu hateb'.*


I ddarganfod gwirionedd Duw, dadleuodd Rudolph Bultmann fod yn rhaid dadfytholegu iaith grefyddol a thynnu allan o'r ysgrythurau'r mythau sydd ynddynt. O wneud hyn, meddai, fe ddatguddid gwirionedd yr ysgrythurau a rhoi hwb i ffydd credinwyr. Teimlai ei bod yn amhosibl i ddynolryw'r oes fodern

gredu storïau a oedd wedi dyddio i'r fath raddau ac y byddai'r ysgrythurau'n fwy effeithiol a defnyddiol hebddynt.

'*Mae'n amhosibl defnyddio golau trydan a radio a manteisio ar ddarganfyddiadau modern ym myd meddygaeth a llawfeddygaeth a chredu ar yr un pryd ym myd y Testament Newydd o gythreuliaid ac ysbrydion'.*

Yn ddiweddar, ysgrifennodd Richard Dawkins yn *The God Delusion*:

*'… mae llawer o'r Beibl … yn gwbl od, fel y gallech ddisgwyl gyda chlytwaith di-drefn o ddogfennau a gafodd eu cyfansoddi, eu diwygio, eu cyfieithu, eu hystumio a'u 'gwella' gan gannoedd o awduron anhysbys ... '*



Pwnc ymchwil
I ba raddau y mae cyfatebiaeth a/neu symbol yn datrys problemau iaith grefyddol.

**Gemau Iaith**

Yn *Philosophical Investigations* awgrymodd Ludwig Wittgenstein ddamcaniaeth newydd ynglŷn â defnyddioldeb iaith grefyddol. Mae'n dadlau na fwriadwyd datganiadau o unrhyw fath i fod yn wir neu'n anwir i bawb, dim ond i'r sawl sydd oddi mewn i'r hyn a eilw yn '*ddull o* fyw' – er enghraifft, y mae datganiad meddygol yn wir neu'n anwir i feddyg ond nid o angenrheidrwydd i gogydd.

Credai mai gêm oedd pob iaith ac ym mhob 'dull o fyw' (er enghraifft, gwyddoniaeth, mathemateg, chwaraeon a chrefydd) y defnyddir geiriau yng nghyd-destun y pwnc – dyna'r gêm. Y mae gan bob 'dull o fyw' ei iaith ei hun a'i rheolau ei hun ynglŷn ag ystyr. Iaith anwybyddol yw iaith y gêm – hynny yw, ni fwriedir iddi wneud datganiadau sy'n gyffredinol wir, ond yn hytrach gyfathrebu ystyr i bobl eraill yn yr un gêm.

Pwrpas iaith grefyddol, felly, yw gwneud datganiadau ystyrlon i gredinwyr. Does dim rhaid i'r datganiadau hyn fod yn ystyrlon i neb y tu allan i'r gêm. Ni all chwaraewr un gêm feirniadu chwaraewr gêm arall, na chymryd rhan mewn gêm heb yn gyntaf ddysgu rheolau a chonfensiynau'r dull hwnnw o fyw. Mae gan bob gêm ei '*meini prawf cysondeb*' ei hun na ellir dod i'w deall heb chwarae'r gêm iawn yn ôl y rheolau iawn. Meddai Wittgenstein:

*'Peidiwch â gofyn am yr ystyr, gofynnwch am y defnydd'.*

Er enghraifft, y mae i'r gair 'arbed' mewn ymadrodd crefyddol fel '*y mae Iesu'n arbed*' ystyr gwbl wahanol i'r modd y defnyddir ef, dyweder, ym myd pêl-droed – '*y gôl-geidwad yn arbed*'. Defnyddir y gair mewn dwy gêm ieithyddol wahanol. Yn ôl Wittgenstein:

*'Rwy'n meddwl yn wahanol, mewn ffordd wahanol. Rwy'n dweud pethau gwahanol wrthyf fy hun. Mae gen i ddarlun gwahanol'.*

Bydd y sawl nad yw'n chwarae'r gêm ieithyddol grefyddol yn clywed iaith grefyddol ac yn ei cham-ddeall. Geilw Wittgenstein hyn yn '*gamgymeriad categori*'. Er enghraifft, pe bai credadun yn sôn am ei 'enaid' a gwyddonydd yn ceisio dod o hyd iddo fel gwrthrych ffisegol, byddai hynny'n gwrthdaro rhwng gemau ieithyddol, yn ' ... *gam gwag rhy fawr*'.

Dywed Peter Vardy yn *The Puzzle of God*:

*'Mae dweud fod 'Duw'n bod' yn wir nid am fod y gair 'Duw' yn cyfeirio at fod tragwyddol nac at sylwedd digyfnewid, ond yn hytrach am fod i'r frawddeg 'Mae Duw'n bod' ddefnydd a phwrpas yn null o fyw cymdeithas y credinwyr'.*

Cefnogwyd y safbwynt hwn gan D Z Phillips yn ei lyfrau, *Religious Beliefs and Language Games* a *The Problem of Evil and the Problem of God*, lle'r awgryma fod iaith grefyddol yn golygu'r hyn y mae'n ei ddweud i gredinwyr, er y gall ymddangos yn ddiystyr i bawb arall. Dadleua fod credinwyr yn meddwl am Dduw fel bod real ac ymwybodol sy'n eu hadnabod, yn eu caru ac yn eu clywed. O ganlyniad, y mae'n berffaith synhwyrol i gredadun gyfarch Duw fel 'Tad' gan siarad ag ef mewn gweddi ac addoliad. Felly, y mae ymadroddion megis 'Gwareda fi, O Dduw' (Salm 69:1) ac 'Ein Tad yn y nefoedd …' (Mathew 6:9) yn gwbl ddealladwy. I Phillips, felly, rhaid deall iaith grefyddol yng nghyd-destun cred grefyddol. Mae'n nodi:

'… *o ystyried sut y cymhwysir cysyniadau crefyddol fe welwn ystyr sôn am Dduw gwrthrychol real sydd hyd braich oddi wrth fodau dynol*'.

Pwnc seminar
Sut y mae stori'r creu yn cydweddu â gemau iaith?
A yw hyn yn gwrthdaro ai peidio â gwyddoniaeth?

***Manteision y Ddamcaniaeth Gêm Iaith***

- Mae'n pwysleisio natur anwybyddol iaith grefyddol.
- Mae gemau iaith yn rhoi ffiniau i ddefnydd cywir o iaith.
- Gall credinwyr ddysgu rheolau iaith grefyddol.
- Y mae gemau iaith crefyddol yn amddiffyn crefydd rhag beirniadaeth gan 'ffurfiau eraill o fywyd' am y deellir gwirionedd yn gymharol a barnu datganiadau wrth eu cyd-destun ac nid wrth eu gwirionedd neu eu hanwiredd gwrthrychol.

***Gwendidau'r Ddamcaniaeth Gêm Iaith***

- Nid yw gemau iaith crefyddol yn caniatáu profi honiadau credinwyr yn empirig.
- Y mae iaith grefyddol yn gelyniaethu'r sawl nad yw'n rhan o'r gêm.
- Ni ellir newid rheolau'r gemau i ganiatáu rhai o'r tu allan i ddod i mewn.

Pwnc trafod
Ym mha ffyrdd y gellir gweld mythau’n rhan o gêm iaith grefyddol?

**Casgliad**

Nid oes yr un ddamcaniaeth ynglŷn ag iaith grefyddol sy’n plesio pawb. Er nad yw iaith grefyddol yn rhoi gwirioneddau absoliwt i ni y gellir eu profi’n empirig, y mae, serch hynny, yn rhoi goleuni dadlennol ar natur y gred ddynol yn Nuw i ni. Ysgrifennodd Peter Vardy:

‘*Wrth ddarganfod gwerth iaith grefyddol, mae’r unigolyn yn darganfod Duw’.*

Tasg ysgrifennu

(a) I ba raddau y mae athronwyr wedi datrys problemau defnyddio iaith grefyddol?

(b) ‘Nid yw dadleuon am ystyrlonder iaith grefyddol yn argyhoeddi.’ Archwiliwch a gwerthuswch yr honiad hwn.

# Pwnc Tri: A yw ffydd grefyddol yn gydnaws â thystiolaeth wyddonol?

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn dylech fod yn gallu:

- Esbonio amrediad o ddiffiniadau athronyddol a chysyniadau o wyrth;
- Gwerthuso pa mor ddigonol yw'r diffiniadau hyn;
- Deall yr anawsterau sy'n codi o'r cysyniadau o 'ddeddfau natur' ac o 'Dduw sy'n ymyrryd';
- Esbonio'r sialens i gred mewn gwyrthiau, gan gyfeirio'n arbennig at Hume, ac asesu i ba raddau y mae dadleuon nad yw gwyrthiau'n digwydd yn argyhoeddi;
- Esbonio dadleuon o blaid realiti gwyrthiau ac asesu a yw credu mewn gwyrthiau yn rhesymol ac a ydyw'n hanfodol i gredadun;
- Esbonio'r berthynas rhwng safbwyntiau crefyddol a gwyddonol cyfoes ar ddechreuad y bydysawd a bywyd dynol;
- Esbonio cysyniadau o greu ac esblygu a damcaniaethau ynglŷn â Chynllun Deallus, y Glec Fawr a Chreu Parhaus;
- Gwerthuso i ba raddau y bu'r ymgais i gymodi safbwyntiau crefyddol a gwyddonol ar ddechreuad y byd a bywyd dynol yn llwyddiant.

## 1. Y cysyniad o wyrth

Math o brofiad crefyddol yw gwyrthiau ac y mae ganddynt allu mawr i droi pobl at grefydd ac i gadarnhau cred grefyddol. Drwy'r canrifoedd, tystiodd miloedd o bobl iddynt brofi gwyrth. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn gwybod am beth yr ydym yn sôn pan fyddwn yn defnyddio'r gair cyn i ni ddechrau trafod a ellir ystyried adroddiadau am wyrthiau yn rhai dibynadwy.

Er y gall diffinio beth a olyga'r gair 'gwyrth' ymddangos yn beth amlwg i rai, mae'n gysyniad mwy anniffiniol nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Y diffiniad traddodiadol, clasurol o wyrth oedd rhywbeth 'sy'n torri deddfau natur'. Dyma'r diffiniad a oedd ym meddwl David Hume pan ddiffiniodd wyrth, yn ei *An Enquiry Concerning Human Understanding* (1748), fel '*Rhywbeth sy'n torri deddf natur o wirfodd arbennig y Duwdod neu trwy ymyrraeth rhyw asiant anweledig'* a honni '*nad ystyrir dim byd yn wyrth os yw'n digwydd yn nhrefn naturiol natur'.* Ymddengys bod y diffiniad hwn yn cynnwys dau syniad allweddol: torri neu dramgwyddo yn erbyn deddf natur, ac **ymyrraeth** rhyw asiantaeth allanol – 'y Duwdod', sef Duw, wrth gwrs. Awgryma J L Mackie rywbeth pur debyg yn ei ddiffiniad ef: '*Digwydd gwyrth pan nad adewir llonydd i'r byd, pan fydd rhywbeth gwahanol i'r drefn naturiol yn ymyrryd ag ef'* (*The Miracle of Theism***,** 1982). Unwaith eto, y diffiniad sylfaenol o wyrth yw rhywbeth na fyddai'n digwydd oddi mewn i'n profiad ni o sut y mae'r byd yn gweithio, ond sy'n ganlyniad gweithredu gan rywun o'r tu allan i'r byd. I Aquinas hefyd, gwyrthiau yw'r '*Pethau hynny …a wneir gan allu dwyfol yn wahanol i'r drefn y bydd pethau yn ei dilyn yn arferol'*.

Pwnc trafod:

Beth yw eich ymateb cyntaf i'r syniad o wyrth? A ydych yn meddwl y gall gwyrthiau ddigwydd neu a ydych yn tueddu i wrthod y posibilrwydd hwnnw? A ydych yn meddwl y gallai eich safbwynt newid, a pham?

Yn ddiddorol, y mae hyd yn oed Hume yn cydnabod y golyga sôn am wyrth fel arfer, er nad bob amser, sôn am Dduw'n ymyrryd yn nhrefn naturiol pethau, ac y mae'r syniad o Dduw sy'n ymyrryd yn un pwysig i gredadun. At hynny, nid yw'r cysyniad o ddeddfau natur heb ei anawsterau, a byddwn yn archwilio'r anawsterau hynny maes o law.

- **Beth yw deddfau natur?**

Y mae'r syniad y gallwn brofi bod y byd yn gweithio mewn modd rheolaidd yn un hanfodol yn y gwyddorau naturiol. Gallwn amgyffred patrymau mewn natur y medrwn eu hesbonio ac sy'n gwneud y byd yn ddealladwy. Yng ngolwg y byd yn yr Oesoedd Canol a'r Dadeni Dysg, a oedd yn amlwg yn olwg mwy crefyddol na'n golwg modern ni, roedd y drefn reolaidd hon yn cael ei chysylltu â'r gred o greu'r byd gan Dduw rhesymol. Mewn gwirionedd, golygai sôn am y cread a sôn am drefn a chysondeb a adlewyrchai union natur Duw, y gallai'r meddwl dynol ei hamgyffred. Dadleuodd Isaac Newton y deilliai rheoleidd-dra'r byd o'r ffaith mai Duw a'i creodd, ac yn y ddeunawfed ganrif dechreuwyd defnyddio'r ymadrodd 'deddf natur' i ddisgrifio byd a drefnwyd gan Grëwr a deddfroddwr dwyfol. Mewn gair, diffiniad oedd deddf natur o nodweddion ar y byd y *bwriedir* iddynt ymddwyn fel y gwnânt, ac ar y pryd yr oedd iddo oblygiadau crefyddol real.

Erbyn heddiw, mae'r ymadrodd wedi cael ei seciwlareiddio, ac i wyddonwyr fe gollodd ei arwyddocâd crefyddol, ond fe'i defnyddir o hyd i ddisgrifio'r egwyddorion hynny y credir eu bod yn gyffredinol ac yn ddigyfnewid a'r tu hwnt i ymyrraeth ddynol. Awgrymodd David Hume mai'r meddwl dynol sy'n rhoi trefn a rheoleidd-dra i'r byd, ond y mae Paul Davies yn glir nad dyna safbwynt gwyddoniaeth fodern: *'Ffaith fathemategol wrthrychol yw bod pethau rheolaidd mewn natur ... byddwn yn dadlennu rheoleidd-dra a chysylltiadau real allan o natur, nid yn eu hysgrifennu i mewn i natur'.* (*The Mind of God: Science and the search for ultimate meaning,* 1992)

I'r credadun, y mae'r drefn hon yn gysylltiedig â chreadigaeth ddwyfol, nid yn unig mai Duw a ddaeth â'r byd i fod ond mai ef hefyd sy'n ei gynnal. Y mae hyn yn arwain yn anochel at gwestiynau ynglŷn â natur ymwneud Duw â'r byd a'r posibilrwydd o wyrthiau fel digwyddiadau pan mae Duw, mewn ymateb i angen pobl ac yn unol â'i ewyllys ei hun, yn ymyrryd yn uniongyrchol â'r drefn reolaidd ac yn caniatáu i ddeddfau naturiol y byd weithredu'n wahanol.

Pwnc seminar:

A ydych yn cytuno mai pethau i'w darganfod yn hytrach na phethau sy'n cael eu gosod gan y meddwl dynol yw deddfau natur? Mewn parau, enwch dair 'deddf natur' a thrafodwch a oes tystiolaeth fod ganddynt fodolaeth wrthrychol real yn y byd. Rhowch adborth o ganlyniadau eich trafodaeth i weddill y dosbarth.

- **A yw hyn yn ddigon i fod yn wyrth?**

Fodd bynnag, y mae mwy i'r cysyniad o wyrth na rhywbeth sy'n torri deddf natur neu sy'n eithriad iddi. I fod yn wir wyrth, rhaid bod i ddigwyddiad arwyddocâd crefyddol. Yn wir, dadleua Richard Swinburne mai dyma brif nodwedd gwyrth – rhaid bod iddi arwyddocâd crefyddol a'i bod yn annisgwyl neu'n anarferol, ond nid oes yn rhaid iddi dorri un o ddeddfau natur. Mewn geiriau eraill, gall fod yn ddigwyddiad annhebygol, ond nid amhosibl. Hyd yn oed pe bai Duw yn ymyrryd â'r drefn naturiol, ni fyddai hynny'n ddigon i fod yn wyrth heb fod i'r digwyddiad arwyddocâd crefyddol. Fel y dywed Swinburne: '*Pe bai duw yn ymyrryd â'r drefn naturiol i beri i bluen lanio yma yn hytrach nag acw heb fod unrhyw bwrpas dwfn i hynny ... ni elwid y peth yn wyrth'.* (*Miracles*, 1989).

Dadleua Swinburne ymhellach y gellir galw digwyddiad yn wyrth os digwydd ar raddfa amser neu mewn amgylchiadau anarferol, ond heb mewn gwirionedd dorri unrhyw ddeddf naturiol. Noda fod *'i ddyn na fu ei galon yn curo am bedair awr ar hugain atgyfodi o blith y meirw yn gwbl iach … dŵr yn troi'n win heb gymorth offer cemegol na chatalyddion …'* (*Miracles*, 1989) yn ddigwyddiadau nad ydynt, yn nhrefn naturiol pethau, yn anarferol. Wedi'r cyfan, bydd pobl yn cael iachâd annisgwyl o hyd yn oed y clefydau mwyaf difrifol, a defnyddir dŵr yn sylfaen i wneud gwin. Yr hyn sy'n gwahaniaethu'r digwyddiadau hyn oddi wrth yr hyn sy'n arferol ac yn eu gwneud yn wyrthiau yw'r raddfa amser a'r amgylchiadau.

Pwnc ymchwil

Pa wyrthiau yn y Testament Newydd sy'n ffitio disgrifiad Swinburne? Enwch wyrthiau eraill o'r Hen Destament a'r Newydd a thrafodwch beth yw'r elfen allweddol sy'n eu gwneud yn wyrthiau.

Nododd Thomas Aquinas dri chategori o wyrth:

1. Pethau a wna Duw, na wnâi natur byth mohonynt, e.e. atal yr haul (Josua 10:13). Disgrifid digwyddiad o'r fath fel gwyrth natur glasurol – ymyrraeth â deddf natur.
2. Pethau a wna Duw, y gallai natur eu gwneud, ond nid yn y drefn honno, e.e. bwrw allan gythreuliaid ac iacháu (Marc 1:31). Ni fyddai digwyddiadau o'r fath yn amhosibl ond byddent yn sicr yn annisgwyl neu'n annhebygol.

3. Pethau a wna Duw, y gall natur eu gwneud, ond y mae Duw'n eu gwneud trwy anwybyddu deddfau naturiol, e.e. iacháu trwy faddau pechod (Marc 2:5). Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y byddai'r iacháu wedi digwydd pe bai natur wedi cael dilyn ei chwrs, ond y mae Duw'n ymyrryd ac yn gweithredu'n uniongyrchol i gyflymu'r broses.

Yn ddiddorol, y mae'r tri chategori hyn yn caniatáu dealltwriaeth gynyddol wan o wyrth. Digwyddiadau a ddehonglir neu a amgyffredir fel pethau a achosir gan Dduw'n gweithredu yw'r categori olaf, a gall hynny fod yn fater o ffydd yn hytrach na thystiolaeth. Gallem fynd ymhellach na thrydydd categori Aquinas ac ychwanegu mwy, a phob categori yn symud ymhellach oddi wrth y wyrth gref, glasurol, sy'n torri deddf natur, gan gynnwys, efallai, y rhyfeddod a deimlir wrth edrych ar fachlud prydferth, neu gyd-ddigwyddiadau ffodus. Dyma ddigwyddiadau y gallai rhai pobl fod yn gwbl barod i'w disgrifio fel gwyrthiau, ond nid ydynt yn ddiffiniadau boddhaol ac mewn gwirionedd y maent yn cynnwys gormod. Os gellir esbonio digwyddiad yn gwbl foddhaol yn nhermau patrymau ac ymddygiad naturiol, ni ellir cyfiawnhau ei alw'n wyrth.



Pwnc trafod

A ydych yn meddwl bod y ddealltwriaeth athronyddol o wyrthiau yn rhy gyfyng? A ddylid ei hestyn i gynnwys cyd-ddigwyddiadau ffodus, neu ddigwyddiadau na fyddai rhywun yn eu disgwyl – er enghraifft clwb pêl-droed o'r Ail Gynghrair yn ennill Cwpan y Gymdeithas Bêl-droed? Pam/pam ddim? Pe bai rheolwr Clwb Pêl-droed Accrington Stanley yn Gristion a'i fod yn gweddïo am i'r clwb ennill y cwpan, a'i fod yn gwneud hynny, a fyddai hynny'n ei gwneud hi'n debycach mai gwyrth ydoedd?

Sut yr ydych yn deall yr ymadrodd 'gwyrth genedigaeth'?' A yw'r ymadrodd hwn yn croesddweud ei hun? A yw pobl sy'n defnyddio ymadroddion fel hyn yn athronyddol anwybodus, neu a ellir cyfiawnhau'r peth?

## 2. Herio'r gred mewn gwyrthiau

### (i) Deddfau natur

Fel y gwelsom, dibynna'r diffiniad clasurol o wyrth gref ar y safbwynt fod Duw'n ymyrryd mewn trefn naturiol sydd, fel arall, yn drefn reolaidd. Fodd bynnag, fe all nad oes deddfau natur neu, o leiaf, na wyddom ni amdanynt i gyd na sut y maent yn gweithredu. Awgryma John Hick y gall nad yw deddfau naturiol yn ddim mwy mewn difrif na '*…datganiadau cyffredinol a luniwyd wrth edrych yn ôl i ddisgrifio beth a ddigwyddodd'.* Os felly, pan brofwn eithriad yn nhrefn natur, yn lle'i alw ar unwaith yn wyrth, fe ddylem ystyried lledu ein dealltwriaeth o'r ddeddf dan sylw i gynnwys yr wybodaeth newydd. Fe all nad oedd y 'torri' ar y ddeddf naturiol yn ddim ond rhywbeth nad oeddem yn ei ddeall na'i ddisgwyl ond y gellir ei gynnwys yn ein dealltwriaeth o'r drefn naturiol. At hyn, dywed gwyddonwyr y gall rhyw gymaint o bethau ddigwydd o fewn natur ar hap a damwain. Dadleua Mel Thompson fod '*y syniad o*

*ddigwyddiad gwyrthiol yn dod â synnwyr o fympwyoldeb ac o natur anrhagweladwy pethau i'n dealltwriaeth o'r byd'* (*Philosophy of Religion*, 1996). Awgryma hynny y gallwn ganiatáu afreoleidd-dra yn y drefn naturiol heb o angenrheidrwydd dybio bod Duw'n ymyrryd.

Yn wir, y mae'n bosibl, o ystyried pa mor anghyflawn yw ein dealltwriaeth o ddeddfau naturiol, y gellir maes o law gynnwys pob digwyddiad, ni waeth pa mor anesboniadwy yr ymddengys, yn ein dealltwriaeth o'r modd y mae'r byd naturiol yn gweithio, yn union fel y daethom eisoes i ddeall digwyddiadau a ystyrid unwaith yn weithredoedd 'annaturiol' Duw – llosgfynyddoedd, er enghraifft, a daeargrynfeydd.  Golygai'r ddadl hon, o'i dilyn i'w phen draw rhesymegol, na fydd angen galw unrhyw ddigwyddiad yn wyrth am y bydd dulliau gwyddonol wedi'i gwneud hi'n bosibl esbonio pob digwyddiad ac y gall na fydd angen credu yn Nuw.

Pwnc seminar

Mewn parau, meddyliwch am ddau beth sy'n ffisegol amhosibl yn awr, ond y gall y byddant yn bosibl yn y dyfodol – yn yr un modd, efallai, ag yr oedd teithio'r gofod neu hyd yn oed dechnoleg gyfrifiadurol sylfaenol yn amhosibl ganrif yn ôl. Ym mha ffyrdd y gallai ein dealltwriaeth o ddeddfau natur newid yng ngoleuni'r pethau yr ydych yn eu nodi? Os gallwn egluro pob digwyddiad yn nhermau deddfau natur, a ydych yn cytuno nad oes angen credu yn Nuw?

Pwnc trafod

Awgryma Richard Swinburne y gellir yn rhesymol ystyried atgyfodiad Iesu yn wyrth am ei bod yn annhebygol y bydd yn digwydd eto mewn amgylchiadau cyffelyb. A ydych yn cytuno? Esboniwch pam/pam ddim.

### (ii) Duw'n gweithredu yn y byd

Mae dealltwriaeth o wyrthiau fel tystiolaeth o ymyrraeth Duw â'r drefn naturiol yn codi cwestiynau ynglŷn â natur Duw a sut y mae'n ymddwyn. Y farn theistig am Dduw yw mai Duw sy'n ymyrryd ydyw. Nid creu'r byd ac yna ymadael ag ef a wnaeth, ond y mae'n dal i'w gynnal a gall ymyrryd ynddo. Gwelodd Aquinas ymyrraeth Duw yn y byd mewn achosion eilaidd, sef yr asiantaethau oddi mewn i'r byd y mae Duw'n gweithio trwyddynt, er gwaetha'u ffaeledigrwydd. Y mae Duw'n ymateb i ddewisiadau pobl a'u gweithredoedd nes, yn y pen draw, bod hanes dynolryw yn cynrychioli'r modd yr hysbysir ei ewyllys. Disgrifia Alistair McGrath y peth fel hyn: *'Y mae Duw, mewn ffordd o siarad, yn dirprwyo gweithredu'n ddwyfol i achosion eilaidd oddi mewn i'r drefn naturiol. Er enghraifft, gall Duw newid ewyllys rhywun o'r tu mewn iddo ... Yn yr achos hwn, cyflawnir gweithred o ewyllys Duw yn anuniongyrchol gan Dduw - eto, yn ôl Aquinas, gallwn ddal i ddweud mewn modd ystyrlon mai Duw a "achosodd" y weithred'* (*Science and Religion - A New Introduction*, 2010). Disgrifia Austin Farrar hyn fel 'asiantaeth ddwbl' - asiantaeth yr achos eilradd (asiant neu wrthrych yn y byd) a'r achos cychwynnol, sef Duw.

Fodd bynnag, er y gall y ddealltwriaeth hon o ddull Duw o weithio yn y byd ganiatáu ei fod a wnelo â'r Glec Fawr neu ag esblygiad (mwy am hyn yn nes ymlaen), dylai fod yn glir nad yw'n caniatáu y gall fod yn achos cychwynnol torri deddfau naturiol. Nid Duw sy'n gweithredu'n fympwyol yw Duw theistiaeth glasurol. Rhaid i unrhyw ymyrraeth ddangos rhywbeth mwy na'i allu, sef ei gariad a'i ymrwymiad i'w greadigaeth. Daw hynny â ni'n ôl at y syniad fod yn rhaid i wyrthiau gyfeirio at rywbeth y tu hwnt iddynt eu hunain a datguddio rhyw arwyddocâd crefyddol.

Y mae cysylltiad agos rhwng perthynas Duw â'i fyd a'r cwestiwn a ellir yn rhesymol feddwl amdano'n gwneud gwyrthiau. Oherwydd bod Duw theistiaeth glasurol y tu hwnt i amser, dadleua Nelson Pike na all weithredu yn y byd. Ni ellir datrys yr anhawster hwn ond trwy dderbyn y gall Duw, er ei fod y tu hwnt i amser, ddal i achosi digwyddiadau oddi mewn i amser, neu hyd yn oed ei fod yn bodoli oddi mewn i amser ond nad yw amser yn effeithio arno. Sut bynnag yr edrychwn ar hyn, gellir dweud hefyd fod gwyrthiau'n peryglu rhydd ewyllys dynolryw am fod ymyrraeth gan Dduw, pa mor llesol bynnag ydyw, yn symud ymaith gyfrifoldeb pobl i ddewis drostynt eu hunain.

Pwnc seminar:

Dywed Richard Swinburne: *Os oes Duw, byddai rhywun yn disgwyl iddo wneud ei bresenoldeb yn hysbys i bobl, nid yn unig trwy batrwm cyffredinol y bydysawd y gosododd hwy ynddo, ond trwy ymwneud â hwy yn agos a phersonol.* (*The Existence of God*, 1979)

Mewn parau, trafodwch y farn bod credu mewn gwyrthiau yn rhan hanfodol o'r hyn a olyga credu yn Nuw. Gwnewch nodiadau ar y dadleuon dros ac yn erbyn y safbwynt hwn a cheisiwch ddod i benderfyniad clir y naill ffordd neu'r llall yn seiliedig ar reswm a dadl. Cyflwynwch eich dadl i weddill y dosbarth a byddwch yn barod i'w hamddiffyn rhag beirniadaeth. Peidiwch â dibynnu ar y safbwynt nad yw o bwys beth y mae neb yn ei feddwl, mai mater i'r credadun yw penderfynu - ceisiwch ddod i benderfyniad yr ydych yn credu ei fod yn *wir*.

### (iii) Pwrpas gwyrthiau

Oherwydd y gall gwyrthiau ymddangos yn fympwyol neu'n ddetholgar, cânt eu beirniadu'n llym gyda golwg ar eu pwrpas. Er enghraifft, ym Masicila'r Santes Clare yn Naples, daw pobl ynghyd yn rheolaidd i weld y wyrth honedig o waed Sant Gennaro yn troi'n hylif o flaen eu llygaid. Yn *The Puzzle of God* (1999), cwestiyna Peter Vardy natur benodol rhai gwyrthiau ar sail foesol: '*Y mae ar Dduw sy'n ymyrryd yn Lourdes i iacháu hen ŵr o'r cancr ond nad yw'n ymyrryd i achub y miliynau sy'n newynu yn Ethiopia - y mae ar Dduw o'r fath angen, o leiaf, wynebu cwestiynau moesol caled'.* Dywed Maurice Wiles hefyd: '*Mae'n beth od na fu dim ymyrraeth wyrthiol i rwystro Auschwitz neu Hiroshima. Ymddengys yr amcanion a briodolir i rai o'r gwyrthiau a fawrygir yn y traddodiad Cristnogol yn ddibwys mewn cymhariaeth' (God's Action in the World*, 1986). Yr anhawster a danlinella Wiles yw nad ymddengys bod gan wyrthiau sy'n dod â lles i unigolion unrhyw amcan uwch, ond y mae Keith

Ward a Richard Swinburne fel ei gilydd yn amddiffyn hawl Duw i weithredu o bryd i'w gilydd mewn modd nad oes iddo ganlyniadau pellgyrhaeddol. Pe bai Duw'n gweithredu'n amlach ac mewn ffyrdd mwy pellgyrhaeddol, mae ei berthynas â'r byd yn newid yn sylfaenol, ac ychydig iawn o anogaeth a fyddai i bobl weithio drostynt eu hunain i ddod o hyd i ddulliau o iacháu ac i rannu yn y gwaith o oruchwylio creadigaeth Duw.

Gwnaeth Iesu'n glir mai pwrpas ei wyrthiau ef oedd cyfeirio'r tu hwnt iddynt eu hunain at y berthynas rhyngddo a Duw: '*Credwch fi pan ddywedaf fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof i; neu ynteu credwch ar sail y gweithredoedd eu hunain'* (Ioan 14:11). Fodd bynnag, ni allai hyd yn oed Iesu iacháu pawb a oedd mewn angen yn ystod ei weinidogaeth, a rhaid bod llawer wedi cael eu siomi. Rhagwelodd y feirniadaeth a allai godi o hyn yn ei bregeth yn y synagog:

*Ac meddai wrthynt, "Diau yr adroddwch wrthyf y ddihareb, 'Feddyg, iachâ dy hun', a dweud, 'Yr holl bethau y clywsom iddynt ddigwydd yng Nghapernaum, gwna hwy yma hefyd ym mro dy febyd.'" Ond meddai, "Yn wir, rwy'n dweud wrthych nad oes dim croeso i'r un proffwyd ym mro ei febyd. Ar fy ngwir rwy'n dweud wrthych, yr oedd llawer o wragedd gweddw yn Israel yn nyddiau Elias pan gaewyd y ffurfafen am dair blynedd a chwe mis, ac y bu newyn mawr ar yr holl wlad. Ond nid at un ohonynt hwy yr anfonwyd Elias, ond yn hytrach at wraig weddw yn Sarepta yng ngwlad Sidon. Ac yr oedd llawer o wahangleifion yn Israel yn amser y proffwyd Eliseus, ac ni lanhawyd yr un ohonynt hwy, ond yn hytrach Naaman y Syriad." Luc 4:23-27*


Pwnc trafod

A ydych yn meddwl mai dim ond Duw anfoesol neu digariad a fyddai'n iacháu unigolyn o ganser ond yn anwybyddu tynged y rhai gafodd eu dal yn ymosodiadau 9/11 neu ar y Titanic? Pe bai Duw wedi ymyrryd mewn digwyddiadau fel hyn, a fyddai'r goblygiadau'n gadarnhaol neu'n negyddol, neu a yw'n amhosibl barnu'n gytbwys?

- **Cyd-ddigwyddiadau ffodus, symbolau a mythau**

Awgrym enwog R F Holland oedd nad yw gwyrth yn ddim byd ond cyd-ddigwyddiad rhyfeddol a welir mewn ffordd grefyddol (enghraifft o 'weld fel') - '*Gellir gweld cyd-ddigwyddiad yn grefyddol fel arwydd a'i alw'n wyrth*'. Os yw mam yn gweddïo am i'w mab fod yn ddiogel pan mae hwnnw'n sefyll yn llwybr trên, a bod y plentyn yn dianc yn ddianaf, mae'n debygol y bydd ganddi reswm da dros gredu i Dduw ymyrryd yn wyrthiol yn y byd ar funud argyfwng ei mab. Sut bynnag yr esbonnir y digwyddiad iddi wedi hynny, fe fydd hi'n dal i'w ddehongli yn y modd hwn am mai felly y dirnadodd ef. Dealltwriaeth wrth-real o wyrth yw hon, sy'n caniatáu i unigolyn neu grŵp ddehongli digwyddiad fel gwyrth hyd yn oed os oes tystiolaeth y gall fod esboniad arall. Tanlinella annhebygolrwydd y digwyddiad y teimlad na allai fod wedi digwydd ond trwy ymyrraeth ddwyfol, er gwaetha'r ffaith fod pethau annhebygol yn digwydd yn rheolaidd heb fod iddynt unrhyw esboniad dwyfol - ennill y loteri, er enghraifft.

Byddai realydd yn dadlau bod gwyrthiau'n ddigwyddiadau gwrthrychol real ac, os oes Duw, y byddai'n wir yn peri iddynt ddigwydd er mwyn cynyddu ffydd ei bobl. Awgryma'r gwrth-realydd, fodd bynnag, mai digwyddiadau symbolaidd ydynt sy'n cynorthwyo credinwyr i ddeall natur Duw ac nad oes neb ond credinwyr yn eu deall yn iawn.

Mewn dull tebyg, mabwysiadodd llyfr D F Strauss, *The Life of Jesus Critically Examined* (1835), y gair 'myth' i ddisgrifio'r holl elfennau gwyrthiol yn yr efengylau. Symudodd y pwyslais oddi ar 'stori **am ddigwyddiad gwyrthiol**' i '**stori** am ddigwyddiad gwyrthiol'. Dadleuodd, gan beri cryn anghytuno yn ei ddydd, nad yw'r storïau am y gwyrthiau yn brawf mai Iesu yw'r Meseia. Storïau ag iddynt botensial problematig ydynt, ac ni ellir eu gwirio'n empirig. Dros ganrif yn ddiweddarach, ysgrifennodd Rudolph Bultmann: '*Mae'n amhosibl defnyddio golau trydan a radio a manteisio ar ddarganfyddiadau modern ym myd meddygaeth a llawfeddygaeth a chredu ar yr un pryd ym myd y Testament Newydd o gythreuliaid ac ysbrydion'* (*Kerygma and Myth,*1953). Mynnai ef fod yn rhaid i'r darllenydd modern ddadfytholegu'r testun Beiblaidd i ddod o hyd i'r ystyr a fwriedid gan ei awduron. Byddai symud ymaith yr elfennau gwyrthiol yn y stori, meddai, yn ei gwneud hi'n bosibl i gael profiad newydd a mwy perthnasol o'r efengyl.

Pwnc seminar:

Mewn parau, trafodwch a yw'r safbwynt gwrth-realaidd ar wyrthiau yn eich argyhoeddi. A ydych yn meddwl bod rhesymau da dros gredu bod gwyrthiau gwrthrychol real wedi digwydd o gwbl neu y gallant ddigwydd byth? Beth sydd hawsaf i chwi ei gredu - bod Iesu wedi gwneud gwyrthiau neu fod gwyrthiau'n digwydd heddiw?

Pwnc ymchwil

Chwiliwch am fwy o wybodaeth am waith D F Strauss a Rudolph Bultmann a gwnewch yn siŵr y gallwch esbonio sut y maent yn deall gwyrthiau.

Defnyddiwch y Rhyngrwyd i ymchwilio i wyrthiau modern – er enghraifft, y rhai yr adroddir amdanynt yn Lourdes ac mewn ymgyrchoedd gwyrthiau enfawr ledled y byd. A yw'r dystiolaeth o blaid y gwyrthiau hyn yn eich argyhoeddi?

## 3. Sialensiau David Hume

Yn ei waith clasurol, *An Enquiry concerning Human Understanding (1748),* dadleuodd David Hume y bydd hi bob amser yn amhosibl profi i wyrth ddigwydd. Yr oedd ef o'r farn bod yn rhaid ateb pob cwestiwn ynglŷn â'r gwirionedd yn ôl tystiolaeth profiad. Rhaid profi pob tystiolaeth o wyrth yn erbyn profiad rheolaidd i'r graddau '*nad oes yr un dystiolaeth yn ddigonol i brofi gwyrth os na fydd profi'r gwrthwyneb yn fwy gwyrthiol*'.

Dadleuai Hume fod gwyrthiau yn rhesymegol a ffisegol amhosibl. Y mae gwyrth, yn ôl diffiniad, yn torri deddf natur. Gan fod deddfau natur yn sefydlog, ni ellir eu torri. Felly, ni all gwyrth ddigwydd. Nid oedd gan Hume ddiddordeb yn arwyddocâd na phwrpas posibl gwyrthiau. Gwrthodai bob tystiolaeth amdanynt ar dir digyfaddawd empirig:

- Diffyg tystiolaeth ddibynadwy: '*Nid oes yn holl hanes yr un wyrth y tystiwyd iddi gan ddigon o ddynion di-gwestiwn eu synnwyr, eu haddysg a'u dysg i sicrhau nad twyll ydoedd'.*

- Tuedd naturiol credinwyr: *'Rhydd angerdd y syndod a rhyfeddod a gyfyd o wyrthiau ... duedd at gredu ynddynt ... gall crefyddwr fod yn frwdfrydig a dychmygu ei fod yn gweld rhywbeth nad oes iddo ddim realiti'.*

- Ffynhonnell ddeallusol amheus adroddiadau o wyrthiau: '*Dadl gref yn erbyn popeth goruwchnaturiol a gwyrthiol yw mai ymhlith cenhedloedd anwybodus a barbaraidd y gwelir yr enghreifftiau lluosocaf ohonynt'.*

- Honiadau croes i'w gilydd: *'Mewn materion sy'n ymwneud â chrefydd, y mae popeth sy'n wahanol yn chwithig …felly, fe ddinistrir hygrededd pob gwyrth yr honnir iddi ddigwydd yn un o'r crefyddau hyn.'.*

Pwnc ymchwil

Chwiliwch am fwy o wybodaeth am athroniaeth David Hume. Mae'n beirniadu llawer ar gredoau crefyddol. Ym mha ffyrdd yr ydych yn meddwl bod cefndir deallusol ei oes wedi dylanwadu ar ei feddwl?

**Anawsterau ynglŷn â safbwynt Hume**

Y brif feirniadaeth ar bedwar pwynt Hume yw eu bod mewn gwirionedd yn cyffredinoli gormod i'w hystyried yn dystiolaeth sy'n argyhoeddi.

- Nid yw Hume yn dweud pa nifer a fyddai'n ddigonol na beth yw ystyr 'di-gwestiwn eu synnwyr, eu haddysg a'u dysg'. Trwy awgrymu na fydd byth nifer digonol o dystion dibynadwy, y mae'n anwybyddu pob nifer y gellir meddwl amdano! Ymhellach, awgryma na ddylem byth dderbyn tystiolaeth am unrhyw ddigwyddiad amhosibl blaenorol. Os yw hynny'n wir, ni ddylai neb 'di-gwestiwn eu synnwyr, eu haddysg a'u dysg' fod wedi credu bod dyn wedi glanio ar y lleuad. Wrth gwrs, mae rhai pobl yn dal am

awgrymu na ddylid credu hynny, ond at ei gilydd fe ystyrir eu bod yn anghywir a'i bod yn fwy tebygol fod y glanio wedi digwydd. Oni fedrai hyn fod yn wir hefyd yn achos gwyrthiau?

- Ai dim ond pobl grefyddol sy'n gweld gwyrthiau? A beth bynnag, a yw pobl grefyddol yn gynhenid annibynadwy? Ai pobl grefyddol sy'n gweld gwyrthiau am mai nhw sydd fwyaf cymwys i wneud hynny? Pe baech am wneud arolwg o'r nifer o ystlumod ar hyd darn o afon, fe fyddech yn gofyn am gyfarwyddyd arbenigwr ar ystlumod, a byddai hwnnw'n esbonio ichwi sut i ddefnyddio lleolwr ystlumod a beth yw ystyr y synau a ddaw ohono, synau na chlyw'r glust ddynol mohonynt fel rheol. Pe baech yn dweud nad oeddech yn barod i'w gredu am ei fod yn arbenigwr ac y byddai'n dweud wrthych eich bod yn clywed ystlumod hyd yn oed os nad oeddech, fe fyddai hynny'n gwbl afresymol. Yn yr un modd, pam bod amheuwyr mor amharod i ymddiried mewn credinwyr?

- Dywed Hume mai ymhlith 'cenhedloedd anwybodus a barbaraidd y gwelir yr enghreifftiau lluosocaf' o wyrthiau. Eto, hyd yn oed yn ei amser ef, y gwledydd ble'r oedd y mwyaf o adroddiadau am wyrthiau oedd Ffrainc a'r Eidal. Credai Hume mai gwaddol meddwl yr oes cyn cyfnod yr Ymoleuo oedd adrodd am wyrthiau, ond yr oedd Ffrainc a Sbaen ymhlith arweinwyr yr Ymoleuo. Yn y cyfnod modern adroddir am wyrthiau ledled y byd, ac er mai o'r gwledydd sy'n datblygu y daw llawer ohonynt, daw llawer o rai eraill o'r Unol Daleithiau lle y mae technoleg a chynnydd gwyddonol di-gwestiwn. Sut yr esboniai Hume hynny heddiw?

- Yn olaf, pam bod Hume yn rhagdybio na all Duw (os yw'n bod) gyflawni gwyrthiau i bobl o bob crefydd? Ni all gwyrthiau mewn gwahanol grefyddau ond diddymu ei gilydd os ydynt yn croesddweud ei gilydd ac, mewn sawl achos, y mae mwy nag un traddodiad crefyddol yn rhannu'r un gwyrthiau. Er enghraifft, nid yw Cristnogion yn gwrthod yr adroddiadau am hollti'r Môr Coch am fod Iddewiaeth hefyd yn eu derbyn. Ymhellach, hyd yn oed os yw atgyfodi Iesu a datguddio'r Qur'an i Muhammad yn honni gwahanol wirioneddau, nid ydynt yn croesddweud ei gilydd o safbwynt athroniaeth ac, os derbyniwn fod yr egwyddor o wyrth yn rhesymol o gwbl, nid oes unrhyw reswm paham na allai'r ddau beth fod wedi digwydd.

Pwnc trafod

A yw credu mewn gwyrthiau yn dibynnu ar gredu yn Nuw, neu a allai gwyrth berswadio anffyddiwr neu agnostic i gredu? Meddyliwch yn glir am y rhesymau dros eich ateb.

Tasg ysgrifennu
(a) Esboniwch ddwy ffordd wahanol o ddeall y gair ‘gwyrth’.
(b) ‘Y mae mwy o resymau dros wrthod credu bod gwyrthiau’n digwydd na thros dderbyn’. Aseswch yr honiad hwn gan gyfeirio’n arbennig at feirniadaeth David Hume o wyrthiau.

## 4. Safbwyntiau crefyddol a gwyddonol cyfoes ar ddechreuad bywyd dynol a’r bydysawd

Credir yn gyffredin mai perthynas o wrthdaro sydd rhwng safbwyntiau crefydd a safbwyntiau gwyddoniaeth. Ffordd syml o edrych ar bethau yw hyn, ac y mae’n gwahanu’r ddwy ddisgyblaeth oddi wrth ei gilydd mewn modd a all fod yn fwy dadleugar na’r gwirionedd. Gellir deall yr honiad o wrthdaro, oherwydd hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg rhannai’r byd crefyddol a gwyddonol yr un rhagdybiaethau am waith Duw yn y cread. Dim ond ar ôl hynny, gyda datblygiad gwyddoniaeth fodern, y cafwyd ffyrdd newydd o ddeall rôl Duw yn y bydysawd ac y cychwynnwyd y ddadl sy’n para heddiw.

Gosodai’r byd canoloesol Dduw yng nghanol y bydysawd a gellid esbonio popeth trwy gyfeirio at ei ewyllys. Mabwysiadodd Aquinas syniadau Aristotle am Brif Ysgogydd, ac uniaethodd hynny â Duw fel Achos ac Ysgogydd Cyntaf. Yn fuan, a thros gyfnod o 150 o flynyddoedd, fe heriwyd y safbwynt clasurol hwn gan Copernicus a Brahe, y dangosai eu gwaith fod y Ddaear a’r planedau eraill yn troi o gwmpas yr Haul. Golygai hynny ailystyried pwysigrwydd cymharol y Ddaear yng nghysawd yr haul. Yn 1632 cyhoeddodd Galileo ei waith arloesol a brofai fod y planedau’n symud yn naturiol ac nid trwy gyfrwng Prif Ysgogydd ac a barai iddo feddwl mai’n drosiadol, nid yn llythrennol, y dylid darllen y Beibl. Ni olygai hyn na welai werth yn y Beibl, ond anogai ailystyried sut y dylid ei ddehongli.

Eto i gyd, deallai Isaac Newton, yr arweiniodd ei waith at ddarganfod deddfau disgyrchiant a symudedd, reoleidd-dra a natur ragweladwy’r deddfau hyn fel canlyniad gwaith creadigol Duw. Cefnogai’r ffaith eu bod mor rhagweladwy y syniad o fydysawd a oedd yn gweithio fel cloc neu beiriant, a Duw yn beiriannydd. Safbwynt Deistiaid oedd un Newton - hynny yw, adlewyrchai’r syniad o Dduw’n creu’r bydysawd ac yna’n gadael llonydd iddo fynd rhagddo ar ei liwt ei hun. Fodd bynnag, achosodd darganfyddiadau Newton, a’r telesgop a ddyfeisiodd a’i gwnâi hi’n bosibl damcaniaethu ar sail tystiolaeth ac arsylwi, i rai credinwyr gefnu ar eu ffydd. Peiriant a fedrai weithio drosto’i hun oedd y bydysawd, nid oedd bywyd dynol yn unigryw, nid y Ddaear oedd canolbwynt y bydysawd ac nid Duw oedd y prif reolwr. Gellid llwyr esbonio popeth, maes o law, mewn termau gwyddonol. Mynegwyd hynny yn ateb enwog y seryddwr Pierre Laplace i gwestiwn Napoleon am le Duw yn ei ddamcaniaethau: ‘*Does arna i ddim angen y ddamcaniaeth honno’*.

Yn ddiddorol, er i’r ffisegwr cyfoes Stephen Hawking honni i ddechrau bod Laplace yn anghywir, ac ysgrifennu yn *A Brief History of Time* (1988) mai ‘mater i Dduw’ oedd deddfau’r bydysawd, ym mis Medi 2010 rhoddwyd sylw mawr yn y wasg i honiad newydd o’r eiddo: ‘*Oherwydd bod deddf megis deddf disgyrchiant, fe all y bydysawd ei greu ei hun o ddim, ac y mae’n gwneud*

*hynny. Creu digymell yw'r rheswm bod yna rywbeth yn hytrach na bod yna ddim, pam bod y bydysawd yn bod, pam ein bod ni'n bod. Does dim rhaid chwilio am Dduw i danio'r papur glas i gychwyn y bydysawd'.* (http://www.bbc.co.uk/news/uk-11161493).

Pwnc trafod

Beth yw eich teimladau cyntaf ynglŷn â'r berthynas rhwng y byd crefyddol a'r byd gwyddonol? A ydych o'r farn eu bod yn anghydnaws neu a yw'n bosibl iddynt gydweddu â'i gilydd?

Heddiw, y mae ystod eang o safbwyntiau crefyddol a gwyddonol ar ddechreuad y bydysawd a bywyd dynol, ac er bod rhai yn amlwg yn gwrth-ddweud ei gilydd ac yn anghydnaws â'i gilydd, dengys eraill sut y datblygodd y ddeialog rhwng gwyddoniaeth a chrefydd mewn ysbryd cyfeillgar dros y canrifoedd.

**(i) Esblygiad**

Yn dilyn ei waith fel naturiaethwr y llong, *The Beagle*, a hwyliodd yn 1831, cyhoeddodd Charles Darwin ei *On the Origin of Species* yn 1859. Yn ystod ei deithiau, roedd Darwin yn cael ei daro gan bedair nodwedd ar y byd naturiol y teimlai fod angen esboniad arnynt:

1. Ymddengys fod creaduriaid byw wedi addasu i'w hanghenion penodol.
2. Y mae rhai rhywogaethau wedi llwyr ddiflannu.
3. Dosberthir ffurfiau ar fywyd yn anwastad ledled y byd, ac y mae rhai sydd ddim i'w gweld ond ar ynysoedd unigol.
4. Y mae gan lawer o greaduriaid nodweddion elfennol nad oes iddynt unrhyw swyddogaeth amlwg – e.e. adenydd ar adar nad ydynt yn hedfan. I beth y byddai Duw'n cynllunio nodweddion dianghenraid fel hyn?

Cyn cyhoeddi gwaith Darwin, yr oedd llyfr Charles Lyell, *Principles of Geology* (1830), wedi palmantu'r ffordd at ddeall i rymoedd naturiol fod ar waith am gyfnod llawer yn hwy nag a dybiwyd yn flaenorol, ac awgrymai tystiolaeth ffosiliau nad oedd rhywogaethau'n ddigyfnewid. Cynigiodd Jean-Baptiste Lamark (1744-1829) ddamcaniaeth gynnar ar esblygiad a awgrymai fod creaduriaid byw yn addasu i ateb eu hanghenion yn ôl eu hamgylchedd – er enghraifft, jiraffod yn esblygu gyddfau hir. Yr oedd bodau dynol ar ben yr ysgol esblygiadol am mai hwy yw'r ffurf esblygedig fwyaf cymhleth ar fywyd.

Aeth Darwin â hyn ymhellach a chynnig mai dethol naturiol oedd y ffordd orau o esbonio sut y digwyddodd esblygiad. Seiliodd y ddamcaniaeth ar y dethol artiffisial a welsai mewn bridio colomennod ac anifeiliaid dof. Gallai bridwyr ddethol y nodweddion priodol mewn anifeiliaid unigol a'u bridio i mewn i

genedlaethau'r dyfodol. Yn ôl Darwin, dyna batrwm o'r hyn sy'n digwydd ym myd natur. Oherwydd bod yn rhaid iddynt gystadlu am fwyd, bydd ieuenctid pob cenhedlaeth yn cystadlu am gael byw, a thuedda'r rhai sy'n goroesi i gynhyrchu'r genhedlaeth nesaf i fod â nodweddion naturiol ffafriol a drosglwyddir i'w disgynyddion (dethol naturiol). Gall pob cenhedlaeth arall yn ei thro addasu a gwella, a'r broses raddol a chyson hon yw ffynhonnell esblygiad y rhywogaeth. Dadleuai Darwin fod pob rhywogaeth i'w holrhain yn ôl i un hynafiad cyffredin - er enghraifft, y mae pob ci yn ddisgynnydd i hynafiad tebyg i flaidd, yn union fel, yn achos bridio artiffisial ar golomennod, y gellir olrhain yr holl amrywiadau ffansi yn ôl at golomen y graig.

Pwnc ymchwil

Chwiliwch am fwy o wybodaeth am waith Darwin, ei ddamcaniaethau a sut y datblygodd hwy a'r anawsterau a gafodd ef ac eraill gyda'r ddamcaniaeth o esblygiad trwy ddethol naturiol. Ystyriwch sut y meddyliai rhai Cristnogion fod y ddamcaniaeth hon yn herio'r gred mai Duw a greodd y byd. Ai dyna fwriad Darwin? Defnyddiwch y Rhyngrwyd ac adnoddau eraill i ateb y cwestiwn hwn.

### (ii) Esblygiad a safbwyntiau crefyddol ynglŷn â'r cread

Daeth goblygiadau crefyddol damcaniaeth Darwin yn amlwg ar unwaith i feddylwyr Cristnogol traddodiadol. Am fod Darwin yn dadlau bod pobl yn rhan o'r drefn esblygiadol, roedd eu statws fel bodau a grëwyd yn arbennig gan Dduw mewn perygl ac ni ellid gwahaniaethu'n fiolegol rhwng bodau dynol ac anifeiliaid eraill. Cyn hynny, y fersiwn a gynigiodd William Paley yn 1802 ar y ddadl gynllun oedd y sylfaen i ddeall y byd peiriannol, teleolegol (â phwrpas iddo) a oedd yn gwbl gydnaws â chred mewn creawdwr dwyfol. Fodd bynnag, yn 1864, yn *The Natural History Review,* sylwodd T H Huxley fod 'teleoleg, fel y deellir hi'n gyffredin, wedi cael ergyd farwol gan Mr. Darwin'. Gwyddai Darwin fod llawer o anawsterau ynglŷn â'i ddamcaniaeth, ond daliai'n hyderus mai dyna'r esboniad gorau oedd ar gael.

Serch hynny, yr oedd y goblygiadau crefyddol yn glir. Tra bod y meddwl Cristnogol traddodiadol yn ystyried bod dynolryw wedi'i gosod ar wahân i weddill byd natur, ei bod ar ddelw Duw ac mai hi oedd uchafbwynt ei greadigaeth, awgrymai damcaniaeth Darwin fod dynolryw hithau wedi esblygu dros hir amser, yn union fel anifeiliaid eraill. Fel y dadleua Richard Dawkins mor rymus yn *The Blind Watchmaker* (1987), rhoddai damcaniaeth Darwin gyfrif llawer mwy argyhoeddiadol o gymhlethdod natur na dadl Paley yn 1802. Er bod Dawkins yn cydnabod bod dadl Paley yn adlewyrchu 'ysgolheictod gorau ei ddydd', dywed hefyd ei fod yn gyfan gwbl, ogoneddus, anghywir' am mai'r 'unig wneuthurwr watsiau mewn natur yw grymoedd dall ffiseg'. Yr oedd Darwin wedi disodli syniadau Paley.

Ystyriai rhai bod darganfyddiadau Darwin wedi rhoi ergyd farwol i un o'r dadleuon pwysicaf dros fodolaeth Duw, ond yr oedd llawer o feddylwyr Cristnogol ar y pryd ac yn y blynyddoedd a ddilynodd yn barod i weld esblygiad fel dull Duw o gyfarwyddo proses estynedig o greu - nad rhywbeth a

ddigwyddodd unwaith yn unig oedd y creu ond proses barhaus.

Pwnc trafod

A ydych o’r farn nad yw damcaniaeth Darwin yn gadael unrhyw le i Dduw fel creawdwr? Amlinellwch ddadl fer dros ac yn erbyn y safbwynt hwn, gan ofalu eich bod yn cyrraedd casgliad sy’n tyfu o’ch dehongliad o’r ddadl.

### (iii) Esblygiad a Chreadaeth

Effeithiodd damcaniaeth Darwin yn arbennig ar Gristnogion a ddeallai Lyfr Genesis yn llythrennol. Er nad dyna farn pob Cristion o bell ffordd, cymerai Protestaniaeth boblogaidd y DU ac UDA yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ganiataol fod Genesis yn disgrifio chwe diwrnod 24 awr o weithgaredd dwyfol a gyrhaeddai ei uchafbwynt yn ymddangosiad gogoneddus dynolryw ar lun a delw Duw yn greadigaeth arbennig. Er bod Darwin ei hun yn poeni bod ei ddamcaniaeth, i bob golwg, yn lleihau statws dynolryw, byddai’r rhan fwyaf o Ddarwiniaid heddiw’n cytuno nad oes iddi le breintiedig mewn cyfundrefn esblygiadol.

Heddiw, mae’r mudiad Creadaeth Daear Ifanc yn dal i gynrychioli’r darlleniad llythrennol, poblogaidd o Genesis. Cred yn benodol i’r creu digwydd dros gyfnod o chwe diwrnod, ryw 6,000-10,000 o flynyddoedd yn ôl, ac iddo ddigwydd trwy weithgaredd goruwchnaturiol, dwyfol - mewn gair, trwy ymyrraeth wyrthiol Duw’n gweithredu y tu allan i brosesau naturiol. Gwnaed Creadaeth Daear Ifanc yn boblogaidd ac yn barchus gan *The Genesis Flood* (1961), o waith y peiriannydd Henry Morris a’r ysgolhaig Beiblaidd John Whitcomb. Dylanwad arbennig y llyfr oedd ei awgrym ynglŷn â ‘daeareg y dilyw’, sef mai yn ystod Dilyw Noa, nid filiynau o flynyddoedd cyn hynny, y gadawyd haenau o bridd ac ynddynt ffosiliau. Yn ôl yr awduron: *‘Ar unwaith, fe ddiflanna’r ddadl olaf dros esblygiad, a daw cofnod y creigiau’n dystiolaeth rymus ... i sancteiddrwydd a chyfiawnder a gallu Duw bywiol y creu’.* Cafodd *The Genesis Flood* ddylanwad sylweddol a gosododd y sylfeini at sefydlu’r Gymdeithas Ymchwilio i’r Creu ac ymddangosiad Gwyddoniaeth y Creu a amcanai at drawsnewid creadaeth o fod yn ddisgyblaeth ecsentrig mewn astudiaethau Beiblaidd i fod yn gangen o wyddoniaeth.

Cefnogir Creadaeth Daear Ifanc yn frwdfrydig iawn gan Brotestaniaid efengylaidd yn UDA, lle y buddsoddwyd arian mawr yn y mudiad er mwyn ceisio gwrthbrofi esblygiad. Cyflwyna gweinidogion gwybodus, yn ôl pob golwg, a dylanwadol ei syniadau fel credoau uniongred ac angenrheidiol. Hyd yn oed yn y DU, dangosodd astudiaeth a wnaed yn 2009 gan *Theos,* mudiad ymchwil i ddiwinyddiaeth gyhoeddus, fod 11% o’r rhai a holwyd yn credu bod Creadaeth Daear Ifanc yn ‘bendant yn wir’.

Pwnc ymchwil

Chwiliwch am fwy o wybodaeth am Greadaeth Daear Ifanc yn y DU ac UDA heddiw. Cychwynnwch gyda'r wefan hon: http://www.theosthinktank.co.uk/mainnav/darwin/articles.aspx.

Yn eironig, y mae hanes hwy i'r mudiad **Creadaeth Hen Ddaear** nag i Greadaeth Daear Ifanc. Yr oedd hyd yn oed Awstin wedi gwrthod y darlleniad llythrennol o Genesis a arweiniai at gred mewn daear ifanc: *'Fe ŵyr y sawl nad yw'n Gristion rywbeth am y ddaear, y nefoedd ac elfennau eraill y byd ... Yn awr, cywilydd o beth yw i anghredadun glywed Cristion ... yn siarad lol am y pynciau hyn'.* Dyna farn y mwyafrif o Brotestaniaid ceidwadol heddiw. Awgrymir nad dyddiau o 24 awr oedd dyddiau'r creu ond cyfnodau amhenodol o amser ac y bu cyfnod hir rhwng y digwyddiadau a gofnodir yn Genesis 1 a'r rhai a gofnodir yn Genesis 2, i gynrychioli'r cyfnod rhwng creu'r bydysawd am y tro cyntaf ac ymddangosiad bywyd ar y ddaear. Yn anochel, rhydd darllen Genesis fel hyn bersbectif esblygiadol ar yr hanes.

Mwy hyblyg fyth yw'r syniad o esblygiad a gyfarwyddir gan Dduw, fel yr awgryma Pierre Teilhard de Chardin, ymhlith eraill. Disgrifia ef, yn ei lyfr *The Phenomenon of Man,* esblygiad ffurfiau ar fywyd i stad gynyddol gymhleth. Mae dynolryw yn dal i esblygu i raddfeydd uwch o gyflawniad ac ymwybyddiaeth, a rhywbryd yn y dyfodol – y Cyflwr Omega – integreiddir popeth yn Iesu Grist, gan wneud esblygiad yn rhan o gynllun Duw at ffawd dynolryw.

### (iv) Cynllun Deallus

Yn ddiweddar, daeth y mudiad Cynllun Deallus yn bur ddylanwadol yn UDA. Fe'i seilir ar yr egwyddor fod y bydysawd yn 'anostyngol gymhleth', a golyga hynny na ellir esbonio'i ddechreuad ond yn nhermau cynllun deallus. Datblygodd y ddadl yn y DU hefyd pan feirniadwyd Sefydliad Ysgolion Imaniwel, wedi eu noddi gan y gwerthwr ceir o Gristion, Syr Peter Vardy, am gynnwys damcaniaethau creadaethol ar y cyd â damcaniaethau esblygiadol mewn gwersi yn ysgolion y wladwriaeth. Asgwrn y gynnen yw bod rhai pobl yn ystyried bod cynnwys damcaniaethau creadaethol neu ddamcaniaethau am gynllun deallus mewn manylebau gwyddonol yn rhoi iddynt statws damcaniaethau gwyddonol – peth a wrthodir gan lawer o wyddonwyr.

Honna cefnogwyr Cynllun Deallus '*fod yn rhaid wrth achosion deallus i esbonio'r strwythurau cymhleth a chyfoethog o ran gwybodaeth sydd mewn bioleg ac y gellir canfod yr achosion hyn yn empirig'* (William A. Dembski, *Intelligent Design*, Downer's Grove, Ill, InterVarsity, 1999). Seilir y ddamcaniaeth ar dair prif egwyddor:

*1. Cymhlethdodau anostyngol*

Golyga cymhlethdod anostyngol fod yn rhaid i bob rhan o gyfundrefn fod yn ei lle ar yr un pryd cyn y gall y gyfundrefn weithio, ac nad yw'n bosibl iddynt ddod i fod fesul tipyn trwy broses raddol o esblygiad. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan Michael Behe, a'i darluniodd yn nhermau trap llygod. Rhaid i bob rhan o drap llygod fod yn ei lle cyn y gall y trap weithio ac, os oes un ar goll, ni weithia ddim. Felly, ni fedr trap llygod ddod i fod fesul tipyn: mae'n rhaid bod meddwl deallus wedi'i gynllunio. Rhestra Behe sawl enghraifft o gyfundrefn fiocemegol sydd, yn ei farn ef, yn dangos yr un egwyddor.

*2. Cymhlethdodau penodedig*

Safbwynt tebyg yw hwn. Fe'i cefnogir gan William Dembski, sy'n dadlau bod cynllun yn ymhlyg lle bynnag y bo cymhlethdod a manyldeb. Awgryma ein bod yn gweld cynllun deallus mewn digwyddiadau sy'n hynod annhebygol ac mewn rhai sy'n cyfateb i ryw batrwm a osodwyd o'r tu allan. Gellir esbonio rhai strwythurau yn nhermau deddfau naturiol nad ydynt yn cyfeirio at gynllun deallus, ond dengys strwythurau eraill gynllun deallus amlwg am y perthyn iddynt gymhlethdodau anostyngol at gyflawni tasg benodol.

*3. Tystiolaeth, nid damcaniaeth*

Dadleua cefnogwyr Cynllun Deallus mai gwreiddyn y mater yw tystiolaeth, nid damcaniaeth foel, ac maent yn honni bod Cynllun Deallus fel damcaniaeth wyddonol yn esboniad mwy digonol ar y dystiolaeth fiolegol na'r un a rydd damcaniaeth esblygiad. Mae'n bwysig cydnabod na ddylid cymysgu rhwng Cynllun Deallus a chreadaeth. Nid yw'n dibynnu ar y Beibl ac y mae'n damcaniaethu ynghylch ffynhonnell y cynllun. Eto, gellir ystyried ei fod yn cyfeirio at theistiaeth fel y ffordd orau o ddehongli'r dystiolaeth.

- **Dechreuadau Cynllun Deallus**

Sefydlwyd y Sefydliad Darganfyddiadau yn 1990 gan Bruce Chapman, George Gilder a Stephen C. Meyer yn ganolfan heb fod yn gwneud elw i syniadau addysgol a sylfaenwyd ar ddysgeidiaeth Gristnogol C.S.Lewis. Yn 1991 cyhoeddodd Phillip Johnson, athro Cyfraith yn America, y llyfr *Darwin on Trial*, a phum mlynedd yn ddiweddarach sefydlodd y Ganolfan Wyddoniaeth a Diwylliant yn y Sefydliad Darganfyddiadau. Dadleuai Johnson fod Cynllun Deallus yn ddamcaniaeth wyddonol i gystadlu ag 'esblygiad hap a damwain', dadl a gefnogwyd ymhellach yng ngweithiau Michael Behe (*Darwin's Black Box: The Biochemical Challenge to Evolution*, 1996) a William Dembski (*The Design Inference*, 1998). Eu hamcan oedd annog byrddau addysg yn America i ganiatáu i fyfyrwyr gael gweld y dystiolaeth wyddonol o blaid ac yn erbyn damcaniaeth Darwin fel y cyhoeddir hi mewn cyhoeddiadau gwyddonol a adolygir gan wyddonwyr. Y mae eu sialens nid i esblygiad ei hun ond i esblygiad 'hap a damwain', yr athroniaeth naturiolaidd nad oes unrhyw ystyr nac asiantaeth oruwchnaturiol y tu ôl i esblygiad. At ei gilydd, nid ydynt yn gwrthod y raddfa amser y seilia esblygwyr eu damcaniaeth arni ac ni wnânt unrhyw ddatganiadau cyhoeddus i gefnogi awdurdod y Beibl ar faterion yn ymwneud â'r cread a'i ddechreuadau.

- **Herio Cynllun Deallus**

*1 Nid yw Cynllun Deallus yn wyddoniaeth*
Ar raglen *Horizon,* 'The War on Science' (26 Ionawr 2006), ar BBC2, honnodd Richard Attenborough: '*Y mae mor sylfaenol groes i bob egwyddor wyddonol y gallwch feddwl amdani, fel bod ei rhoi yn yr un dosbarth yn golygu dryswch meddwl difrifol',* ac yn yr achos enwog yn 2005, *Kitzmiller ac eraill yn erbyn Ardal Ysgolion Cylch Dover,* gwrthododd y llys bob honiad fod Cynllun Deallus yn ddamcaniaeth wyddonol, gan fynnu nad oedd yn '*ddim mwy na chreadaeth mewn dillad eraill*'.

*2. Llamau sydyn*
Os nad oes tystiolaeth i esblygiad uniongyrchol, gam wrth gam, gellir ystyried y posibilrwydd o lamau sydyn, ac y mae hynny'n fwy tebygol na chynlluniwr o dduw. Fodd bynnag, y mae codi'r posibilrwydd o Dduw yn codi mwy o gwestiynau nag o atebion.

3. *Darganfyddiadau geneteg foleciwlaidd*
Cefnoga darganfyddiadau diweddar ym maes DNA y ddamcaniaeth esblygiadol y gellir olrhain popeth yn ôl i un bod byw.

Mewn ymateb i'r sialensiau hyn gellir dadlau:

*1 Bod Cynllun Deallus yn wyddoniaeth*
Yn y pen draw, dibynna'r honiad nad yw Cynllun Deallus yn wyddoniaeth ar y safbwynt bod cyfeirio at y goruwchnaturiol, o'i gyferbynnu â'r naturiol, yn gwahaniaethu'r hyn nad yw'n wyddoniaeth oddi wrth wyddoniaeth. Fodd bynnag, awgryma Cynllun Deallus fod yna gynllun real mewn natur ac y gellir dod o hyd iddo'n empirig trwy ddulliau gwyddonol heb orfod dadlau bod iddo achos goruwchnaturiol. Dywed Michael Behe: '*Felly, er fy mod yn dadlau bod yna gynllun, gadewir yn agored y cwestiwn pwy yw'r cynlluniwr ...*' ('The Modern Intelligent Design Hypothesis', *Philosophia Christi*, Cyfres 2, Cyfrol 3, Rhif 1, 2001).

*2 Llamau sydyn*
Mae cefnogwyr Cynllun Deallus yn herio'r honiad bod y posibilrwydd o esboniad naturiol yn ddigon i danseilio'r casgliad bod cynllun yn bod. Gwrthodant hefyd honiadau bod cynllun fel esboniad yn gofyn am gyfres o esboniadau i'w ategu. '*Nid yw credu mai'r ddamcaniaeth cynllun yw'r esboniad gorau ... yn dibynnu ar ein gallu i esbonio'r cynlluniwr.*' (William Lane Craig, 'Why I Believe in God', yn Norman L. Geisler a Paul K. Hoffman (gol.), *Why I Am A Christian* (Baker, 2001).

*3 Geneteg folecwlaidd*
Dadleuir bod hanesion moleciwlaidd yn gwrth-ddweud hanesion a sylfaenir ar ffosiliau, bod gwahanol hanesion moleciwlaidd yn gwrth-ddweud hyd yn oed ei gilydd, a bod gwahanol foleciwlau yn cynhyrchu gwahanol linachau esblygiadol.

Tasg ysgrifennu:

(a) Esboniwch **ddwy** wahanol ddealltwriaeth grefyddol o ddechreuad y bydysawd a bywyd dynol.

(b) 'Y mae'r dealltwriaethau gwyddonol o ddechreuad y bydysawd a bywyd dynol wedi hen ddisodli'r safbwyntiau crefyddol ar y pethau hyn'. Aseswch yr honiad hwn gan gyfeirio at Esblygiad.

**(v) Y Glec Fawr**

At ei gilydd, derbynia gwyddonwyr y safbwynt bod dechreuad i'r bydysawd ond, er bod hyn yn gyson â'r athrawiaeth Gristnogol, y mae'r esboniad gwyddonol yn un y gellir ei ddehongli'n gyfan gwbl o safbwynt deddfau annibynnol ffiseg. Fe'i cynigiwyd yn 1948 gan Gamow, Alpher a Herman, a ddehonglodd yr ymbelydredd cefndirol a achosir gan ffotonau yn symud ar hap trwy'r gofod, heb fod iddynt ffynhonnell ddirnadwy ac ar dymheredd o 2.7K, fel tystiolaeth i ofod ac amser ddechrau lai nag eiliad ar ôl ffrwydrad anferth. Mae'r bydysawd yn dal i ymestyn o'r man lle bu'r ffrwydrad a gellir o hyd olrhain yr ymbelydredd a ddaeth ohono. Yn ddiddorol, yn 1964, pan oedd Arno Penzias a Robert Wilson yn gweithio yn New Jersey ar antenau micro-don arbrofol, codasant ryw sŵn hisian yn y cefndir. Ar y dechrau, tybient mai colomennod yn clwydo ar yr antenau oedd yr achos. Fodd bynnag, parhaodd y sŵn ar ôl i'r colomennod gael eu symud, a daethant i ddeall mai oldywyn (*afterglow*) y ffrwydrad cynoesol ydoedd – nid annhebyg i drydan statig ar deledu.

Y Glec Fawr oedd achos holl ddeddfau gwybyddus cemeg a ffiseg, ond dim ond ar ôl mwy na biliwn o flynyddoedd wedyn y dechreuodd sêr a galaethau ymffurfio, a bu farw llawer ohonynt cyn ymffurfio o'n haul a'n planedau ni. Arweiniodd hyn rai gwyddonwyr i honni mai o'r sêr marw y daeth y deunyddiau angenrheidiol at ffurfio bywyd seiliedig ar garbon.

Y cwestiwn allweddol i ni, wrth gwrs, yw a ellir esbonio'r Glec Fawr heb fod angen rhyw asiantaeth ddwyfol i'w hachosi. Methodd gwyddonwyr esbonio'r amgylchiadau cyn y Glec Fawr na beth a'i hachosodd. Mae hyn yn rhoi lle i'r theist ddyfalu iddi gael ei hachosi gan Dduw. Gellir olrhain yr ymchwil hon am achos cyntaf yn ôl at Ddadl Gosmolegol Aquinas, ymhell cyn y gwyddai athronwyr am y Glec Fawr, ond ni fydd gwyddonwyr megis Richard Dawkins, sy'n dadlau 'os na all gwyddoniaeth ei hesbonio, rhaid i ni wneud yn well' yn fodlon derbyn esboniad theistaidd arni. Mae gwyddonwyr yn y Glec Fawr i chwilio am esboniad cyflawn na fydd yn gofyn am ymyrraeth ddwyfol.

Arweiniodd yr union amodau angenrheidiol i fywyd a ddaeth i fod maes o law o ganlyniad i'r Glec Fawr at yr Egwyddor Ddynol fodern, a elwir hefyd weithiau yn ddadl y perffeithio. Tynna Effaith *Goldilocks* fel y gelwir hi – bod y bydysawd 'i'r dim' at fywyd – sylw at y damweiniau neu'r cyd-ddigwyddiadau

ym meysydd ffiseg a seryddiaeth a wnaeth fywyd yn bosibl. Arweiniodd hyn Freeman Dyson i ddweud: ‘*Os edrychwn allan i’r bydysawd a nodi’r llu damweiniau ym meysydd ffiseg a seryddiaeth sydd wedi cydweithio er ein lles, y mae bron fel pe bai’r bydysawd ei hun yn gwybod rywfodd neu’i gilydd ein bod ni’n dod’* (*Disturbing the Universe*, 1979). Fe all nad yw hyn yn profi bod Duw’n bod, ond y mae’n ychwanegiad defnyddiol at achos y theist.

Pwnc seminar

Chwiliwch am yr Egwyddor Ddynol ar y Rhyngrwyd neu yn eich llyfrau testun. Fe’i cynigir yn aml heddiw yn rhan o’r ddadl Cynllun Deallus dros fodolaeth Duw. Mewn grŵp, gwelwch a allwch gytuno ar y ffordd orau i ddeall sut y perffeithir y bydysawd – Duw’n darparu at y ddynolryw a greodd i fyw ar y ddaear, neu gyfres o gyd-ddigwyddiadau’n arwain at esblygiad bywyd dynol.

**(vi) Creu Parhaus**

Athrawiaeth debyg i esbygliad theistaidd yw athrawiaeth creu parhaus. Dechreua cefnogwyr y safbwynt hwn â’r rhagdybiaeth i Dduw greu’r byd, gan gynnwys ei ddeddfau ffisegol, o ddim, ond ei fod yn dal i weithredu’n greadigol a rhagluniaethol ymhobman mewn prosesau naturiol, a gyda hwy a thrwyddynt, i beri cymhlethdod ffisegol a biolegol. Un a ddadleuodd yn gryf dros y safbwynt hwn yw Arthur Peacocke. Mae ef yn mynnu nad yw digwyddiadau hap a damwain - amrywiadau genetig, er enghraifft - yn cyfrif yn erbyn amcanion creadigol Duw. I’r gwrthwyneb, Duw yw ffynhonnell pob hap a damwain a phob deddf ffisegol fel ei gilydd, ac y mae’n dal i greu cymhlethdod ffisegol a chemegol a biolegol. O ganlyniad, y mae i’r byd barhad, ond y mae hefyd yn benagored a phosibilrwydd iddo newid. Unwaith eto, ymddengys bod Awstin o flaen ei amser pan ysgrifennodd: ‘*Gadewch i ni, felly, gredu bod Duw’n gweithio’n barhaus, ac y byddai popeth a grëwyd yn marw pe bau ei waith yn peidio’.*

Fodd bynnag, nid pawb sy’n derbyn athrawiaeth creu parhaus. Honna rhai Cristnogion nad oes dim yn digwydd yn y byd heb i Dduw ei ewyllysio, myn eraill fod Duw uwchlaw’r cread a bod y cread yn ymateb i’w ewyllys. Yn ddiddorol, mae’r syniad o greu parhaus yn fwy cysyniadol na’r syniadau am greadaeth, a gellir ei gysylltu ar lefel cwantwm â’r syniad fod y byd yn agored ar raddfa is atomig ac y gall Duw, felly, weithredu’n naturiol i beri prosesau naturiol heb fynd y tu hwnt i achos naturiol. Cysylltwyd y safbwynt hefyd â diwinyddiaeth broses a diwinyddiaeth ffeministaidd.

Un o hyrwyddwyr mwyaf adnabyddus creu parhaus yw John Polkinghorne, sy’n mynnu bod Duw’n gweithredu i gynnal y byd ffisegol. Ni all yr un arbrawf brofi hyn – mater o ffydd a gefnogir gan ddirnadaethau gwyddonol ydyw. Dadleua nad hap a damwain, na hyd yn oed un weithred o greu, yw’r

esboniad gorau ar y patrymau y gellir eu gweld yn y bydysawd agored a hyblyg.

Pwnc seminar

Y mae gennych yn awr drosolwg o’r cwestiynau sy’n codi ynglŷn â’r berthynas rhwng crefydd a gwyddoniaeth. Trafodwch mewn grwpiau bychain a ydych yn meddwl bod gwrthdaro rhwng y ddwy, neu a ydynt mewn gwirionedd yn gyfeillion, y ddwy ohonynt yn ceisio dod o hyd i’r gwirionedd. Gwnewch yn siŵr fod gennych ddigonedd o ddadleuon ac o dystiolaeth i gefnogi eich casgliadau.

# Pwnc Pedwar:  A ydym yn ‘fodau rhydd’?

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn byddwch yn gallu:

- Deall natur ewyllys rydd
- Deall y cysyniad o benderfyniaeth
- Esbonio natur penderfyniaeth galed a phenderfyniaeth feddal
- Archwilio a gwerthuso’r dadleuon o blaid ac yn erbyn ewyllys rydd
- Gwerthuso’r athrawiaeth Gristnogol am ragarfaethiad
- Deall y cyfyngiadau ar ryddid dynol
- Esbonio’r cysyniadau o ras, pechod ac iawn
- Archwilio cwestiynau’n ymwneud ag iachawdwriaeth a’r Rhai Etholedig
- Deall safbwynt ysgolheigion
- Gwerthuso’r dadleuon o blaid ac yn erbyn bodolaeth ewyllys rydd ddynol

**<u>Beth yw’r cyfyngiadau ar ryddid dynol?</u>**

‘*Os yw Duw’n bod, y mae popeth yn dibynnu arno ac ni allwn wneud dim yn erbyn ei ewyllys. Os nad yw’n bod, y mae popeth yn dibynnu arnom ni.*’
Camus: *The Myth of Sisyphus*

A yw bodau dynol yn rhydd i ddewis sut y byddant yn gweithredu neu a yw gweithredoedd dynol eisoes wedi eu penderfynu gan ddigwyddiadau’r gorffennol? Os ydym yn byw mewn byd lle y mae popeth wedi’i benderfynu’n barod, yna nid oes unrhyw le i gyfrifoldeb moesol. Os nad ydym yn rhydd i benderfynu beth a wnawn, ni fedrir ein beio am ein gweithredoedd. Felly, a ydym ni’n rhydd ai peidio?

‘*Ni phennir eich tynged ar eich cyfer, byddwch yn ei dewis drosoch eich hun.*‘ – Plato: *Gweriniaeth*.

Y mae cyfyngiadau amlwg ar ryddid dynol:

- Corfforol – ni allwn wneud dim ond yr hyn sy’n gorfforol bosibl
- Seicolegol – ni allwn weithredu ond yn ôl ein natur
- Biolegol a rhywiol – fe’n cyfyngir gan ein cyrff
- Cymdeithasol a diwylliannol – fe’n cyfyngir gan ein hamgylchiadau.



Pwnc trafod

Beth yw gwir ystyr ‘rhydd’?

## <u>Penderfyniaeth</u>

Penderfyniaeth yw'r safbwynt nad yw bodau dynol yn gyfan gwbl rydd ond y penderfynir eu gweithredoedd, i raddau mwy neu lai, gan achosion a digwyddiadau ac amgylchiadau'r gorffennol a bod ar bopeth angen rheswm digonol dros ddigwydd fel y gwna. Dyma hefyd ragdybiaeth sylfaenol gwyddoniaeth fodern, sy'n dibynnu ar benderfyniaeth am ei rhagosodiad y gellir rhagweld gweithredoedd yng ngoleuni digwyddiadau'r gorffennol. I'r gwyddonydd, gellir esbonio digwyddiadau yn nhermau deddfau natur, sy'n gweithredu trwy achos ac effaith. O ddeall yr achosion a'r digwyddiadau hyn, gŵyr gwyddonwyr beth a ddylai ddigwydd nesaf – penderfynir y canlyniad gan yr hyn a ddigwyddodd eisoes.

Yn yr un modd, awgryma penderfyniaeth fod gweithredoedd pobl hefyd yn ganlyniad achos ac effaith ac nad ydynt, felly, yn weithredoedd cyfan gwbl rydd. Safbwynt ydyw sy'n ystyried bod pob digwyddiad wedi'i benderfynu ymlaen llaw gan ddigwyddiadau eraill ac nad yw'r rhyddid i ddewis yn ddim ond rhith. Y mae bodau dynol, mewn ystyr real, yn gaethweision i achosion o'r gorffennol ac nid oes ganddynt unrhyw reolaeth dros eu gweithredoedd. Yn hytrach, yr hyn sy'n penderfynu sut y byddant yn gweithredu yw eu cymeriad, eu profiad blaenorol, eu hamgylchiadau presennol ac, o bosibl, Duw.

Pwnc trafod

A yw ewyllys rydd yn gweithredu mewn modd y gellir ei ragweld yn wyddonol?

Nid yw penderfyniaeth yn cymryd ymaith bob rhyddid dynol. Cyfeiria'n unig at y rhannau hynny o gymeriad a chefndir dyn sy'n berthnasol i'w amgylchiadau. Gelwir yr amgylchiadau hyn, sy'n achosi cadwyn o achos ac effaith, yn '*gychwyniad*'.

I'r penderfyniaethydd, felly, y mae'r ffordd y mae rhywun yn gweithredu yn ganlyniad nid i ryddid ond i:

- Natur – felly y cafodd ei wneud
- Meithrin – y ffordd y cafodd ei fagu
- Nodweddion genetig a nodweddion a gafodd eu hetifeddu
- Amgylchiadau personol
- Cefndir teuluol

### *Penderfyniaeth Galed*

Ar un pen i'r sbectrwm y mae penderfyniaeth galed. Dyma'r safbwynt mai digwyddiadau blaenorol sy'n rheoli holl weithredoedd pobl. Cafodd y bydysawd ei wneud o ddim byd mwy na phrosesau ffisegol cyffredin sy'n cael eu penderfynu, mewn egwyddor, gan natur mater ei hun. Mae hyn yn ddibynnol ar y rhagdybiaethau a ganlyn:

- rhwydwaith cymhleth o ddigwyddiadau yn y gorffennol
- dylanwadau crefyddol, seicolegol, gwleidyddol a diwylliannol
- byd sy'n rhedeg ar ddeddfau naturiol y gellir eu llwyr ragweld
- dim ymyrraeth gan Dduw mewn gwyrthiau neu atebion i weddïau, am y byddai'r pethau hyn yn newid dyfodol sydd wedi'i ragarfaethu
- nad yw pobl i'w dal yn foesol gyfrifol am eu gweithredoedd

### *Beirniadu Penderfyniaeth Galed*

Mae'n anodd cynnal honiad penderfyniaeth galed mai rhith yw rhyddid oherwydd pan feddyliwn am naill ai ryddid ymarferol (rhyddid i wneud yr hyn yr ydym yn ei fynnu) neu ryddid metaffisegol (bod yn gyfrifol am y dewisiadau a wnawn) gallwn feirniadu'r safbwynt penderfyniaethol trwy honni ein bod yn *teimlo* ein bod yn rhydd. Ymhellach, os dilynwn ddadl penderfyniaeth galed i'w phen draw rhesymegol, cawn ein gorfodi i gydnabod bod hyd yn oed cymryd safbwynt penderfyniaethol ynddo'i hun yn beth a benderfynwyd.

Gwaith seminar

Beth allai fod yn ddylanwadau seicolegol a gwleidyddol ar weithredoedd rhywun?

Beth yw ystyr dweud mai rhith yw rhyddid?

Sut y gallai penderfyniaethydd caled ateb y feirniadaeth ein bod yn 'teimlo'n rhydd'?

***Penderfyniaeth Feddal***

Safbwynt llai eithafol yw penderfyniaeth feddal, sef bod rhywfaint o benderfyniaeth mewn gweithredoedd dynol ond bod pobl yn dal yn gyfrifol am yr hyn y dewisant ei wneud. Yn ôl y safbwynt hwn, y mae'r byd yn cynnwys prosesau meddyliol yn ogystal â phrosesau ffisegol. Mae'n rhagdybio:

- y gall rhai gweithredoedd fod wedi eu penderfynu'n rhannol gan eneteg ac yn rhannol gan fagwraeth
- bod gan fodau dynol ryddid cyfyngedig i ddewis
- bod pobl yn foesol gyfrifol am eu gweithredoedd
- y gall Duw ymyrryd yn y byd mewn gwyrthiau ac atebion i weddïau

*'Gallwn ni a fu fyw yn y gwersylloedd carchar gofio'r dynion a fyddai'n cerdded trwy'r cabanau yn cysuro eraill, yn rhoi eu darn olaf o fara. Fe all mai ychydig oeddent o ran nifer ond y maent yn ddigon o brawf y gellir cymryd popeth oddi ar ddyn ond un peth: y rhyddid dynol olaf - y rhyddid i ddewis ei agwedd beth bynnag yr amgylchiadau, i ddewis ei ffordd ei hun.'*

Frankl: *Man's Search for Meaning*

***Beirniadu Penderfyniaeth Feddal***

Pan fydd penderfyniaethwyr meddal yn honni bod gwahaniaeth rhwng gweithredoedd rhydd a gweithredoedd nad ydynt yn rhydd, y maent yn aml yn anwybyddu'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar ddewis 'rhydd' rhywun - er enghraifft, os yw rhywun ar ddiet gall ddewis bwyta salad neu siocled, ond bydd y diet yn dylanwadu ar y dewis - gall ddewis y naill neu'r llall ond, gan ei fod ar ddiet, mae'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud drosto.

Gwaith seminar

Beth yw ystyr bod yn foesol gyfrifol?

Os ydym yn rhydd, a ddylai Duw wneud gwyrthiau?

A yw unrhyw benderfyniad a wnawn byth yn benderfyniad cyfan gwbl rydd?

### *Rhyddewyllysiaeth*

Ar ben arall y sbectrwm y mae Rhyddewyllysiaeth, sef y safbwynt fod bodau dynol yn rhydd i ddewis eu gweithredoedd. Mae’n rhagdybio:

- bod bodau dynol yn rhydd i weithredu ac i gymryd cyfrifoldeb moesol
- bod magwraeth a chredoau a gwerthoedd personol yn effeithio ar weithredoedd moesol
- bod gan fodau dynol gydwybod foesol a synnwyr o gyfrifoldeb moesol.

‘*Wrth ryddid, felly, ni allwn ond golygu'r gallu i weithredu neu i beidio â gweithredu yn ôl penderfyniaeth yr ewyllys; hynny yw, os dewiswn orffwys, cawn wneud hynny; os dewiswn symud, cawn wneud hynny hefyd.’*
*Hume: An Enquiry Concerning Human Understanding*

### *Beirniadu Rhyddewyllysiaeth*

Er bod rhyddewyllyswyr yn honni bod pobl yn rhydd i wneud dewisiadau, y mae eu natur yn cyfyngu ar eu rhyddid. Gelwir hyn yn *rhyddid digymell*. Er enghraifft, byddai un sy’n swil wrth natur yn ei chael hi’n anodd gwneud rhai dewisiadau moesol a fyddai’n hawdd i rywun llai swil. Ni all neb ddewis yn rhydd ond pan fydd yn rhydd o bob cyfyngiad, gan gynnwys cyfyngiadau cefndir, credo, diwylliant a chysylltiadau eraill. Gelwir hyn yn *rhyddid di-hidio*.

Gwaith seminar

Gan gyfeirio at un cyfyng-gyngor moesol, awgrymwch sut y gallai gael ei ddatrys gan:
- benderfyniaethydd caled
- rhyddewyllysiwr
- penderfyniaethwr meddal

### *Tynghediaeth*

Yn yr eithaf pell, tynghediaeth yw’r safbwynt na ellir newid digwyddiadau yn y dyfodol, a bod holl weithredoedd a dyheadau dynolryw yn ddibwynt am eu bod yn rhan o batrwm na ellir ei newid. Nid yw tynghediaeth yn esbonio pam bod y patrwm hwn o ddigwyddiadau yn bod, dim ond datgan mai felly y mae.

Pwnc trafod

Pa agweddau ar y natur ddynol sy’n cyfyngu ar y rhyddid i ddewis?

A yw bywyd yn ddibwynt?

***Cydnawswyr, Anghydnawswyr a Rhyddewyllyswyr***

- Cred cydnawsydd (penderfyniaeth feddal) fod gan fodau dynol ryw gymaint o ryddid, ond y gall digwyddiadau yn y gorffennol ddylanwadu ar weithredoedd; mewn geiriau eraill, bod ewyllys rydd a phenderfyniaeth rywsut yn gydnaws â'i gilydd.
- Cred anghydnawsydd (penderfyniaeth galed) fod gweithredoedd dynol wedi'u penderfynu ymlaen llaw ac nad oes gan fodau dynol gyfrifoldeb moesol. Nid yw penderfyniaeth ac ewyllys rydd yn gydnaws â'i gilydd.
- Nid yw rhyddewyllysiwr yn credu y penderfynir pob gweithred gan ddigwyddiadau yn y gorffennol. Felly, y mae gan fodau dynol gyfrifoldeb moesol.

***Canlyniadau penderfyniaeth:***

Os yw popeth wedi ei benderfynu, yna y mae canlyniadau pwysig:

- Nid oes gan fodau dynol unrhyw gyfrifoldeb am eu gweithredoedd
- Ni all bodau dynol wneud penderfyniadau rhydd a rhesymegol
- Nid yw ewyllys rydd a dewis yn ddim ond rhithiau.



Pwnc trafod

Beth yw ystyr 'rhyddid' i benderfyniaethwyr?

A yw rhyddewyllyswyr yn cymryd cymeriad ac amgylchiadau personol rhywun ddigon o ddifrif?

***Beirniadaethau***

Un o brif anawsterau penderfyniaeth yw barnu beth yw ystyr 'gwirionedd'.

- Dywed penderfyniaethwyr fod y ffactorau sy'n dylanwadu ar weithgareddau rhywun yn '**wirioneddau angenrheidiol**' – hynny yw, bod yn rhaid eu bod yn wir, e.e. 'y *mae pob hen lanc yn ddyn*'
- Fodd bynnag, y mae math arall o wirionedd – '**gwirionedd dibynnol**', a all fod yn wir neu ddim yn ôl yr amgylchiadau, e.e. '*y mae pob dyn yn hen lanc*'
- Mewn geiriau eraill, fe all fod yn wir fod cymeriad ac amgylchiadau rhywun yn penderfynu ei fod yn gweithredu mewn ffordd arbennig ar un achlysur, ond ni raid iddi fod felly ar achlysur arall
- Felly, er y gall fod yn debygol fod ffactorau eraill yn penderfynu gweithredoedd rhywun, nid yw hynny'n sicr.

Gwaith seminar

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwirioneddau angenrheidiol a gwirioneddau dibynnol? Rhowch enghreifftiau o'r ddau fath.

Pa fathau eraill o wirionedd sydd?

Gwaith ysgrifennu

Esboniwch nodweddion penderfyniaeth galed a phenderfyniaeth feddal.

*'Y mae credu mewn rhagarfaethiad yn anghydnaws â chredu fod gan bobl ewyllys rydd a chyfrifoldeb*'. Aseswch ddilysrwydd y datganiad hwn.

**Pam bod ewyllys rydd ddynol yn bwysig?**

Y mae'r cwestiwn a yw pobl yn rhydd ai peidio i wneud penderfyniadau yn bwysig am ddau reswm:

1. Mae pob ymdrech ddynol i ryw raddau yn dibynnu ar y syniad fod popeth mae unigolion yn ei wneud yn cael ei gyflawni trwy eu penderfyniadau a'u dewisiadau hwy eu hunain. Fe gollai darganfyddiadau gwyddonol mawr, celf, barddoniaeth, cerddoriaeth a llenyddiaeth, eu hystyr os oes modd dangos nad ydynt yn ddim ond canlyniad achos ac effaith.

2. Os nad oes gan fodau dynol ryddid *moesol*, y mae egwyddorion cyfiawnder, moeseg, gwobr a chosb yn amherthnasol, ac felly hefyd unrhyw gysyniad o fod yn dda.

Y mae'r berthynas rhwng rhyddid dynol ac ymddygiad moesol yn hollbwysig. Os yw pob gweithred wedi ei phenderfynu – hynny yw, bod y cyfan o brofiad rhywun, ei wybodaeth, ei enynnau, ei amgylchiadau, ei gysylltiadau a deddfau natur yn chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau – yna, ni allwn ei feio am weithredu'n anghywir na'i ganmol am weithredu'n dda.

'*Cyn belled ag ... yr ystyrir mai parch i resymoledd neu ymreolaeth yw'r ymrwymiad moesol sylfaenol, rhaid naill ai gwadu bod gennym gyfrifoldeb moesol at unrhyw greaduriaid o'r math hwn, neu ... ddyfeisio syniad o resymoledd neu ymreolaeth a fydd rywsut yn ffitio'r sefyllfaoedd, neu o leiaf rai ohonynt.* '
– Jean Porter

Pwnc trafod

A yw'r safbwynt hwn yn iawn? Pam/pam ddim?

Yn ôl Reinhold Niebuhr, yn hytrach na bod gweithredoedd pobl wedi eu penderfynu, ymddengys bod pobl yn gorfodi eu dyheadau a'u hamcanion ar natur ei hun ac y mae ganddynt y rhyddid i wneud hynny am eu bod yn gallu deall sut y perthyn digwyddiadau unigol i batrwm cyffredinol. Gallant gofio digwyddiadau'r gorffennol a defnyddio'r cof hwnnw i ddylanwadu ar ddigwyddiadau'r dyfodol.

Yn yr un modd, honnai y gall fod i bob sefyllfa lawer cymhelliad ac achos a'i bod yn amhosibl rhagweld yn gywir beth a wna neb. Mewn geiriau eraill, awgryma Niebuhr os dehonglir pob digwyddiad, unwaith iddo ddigwydd, fel canlyniad anochel cyfres o ddigwyddiadau, y cawn ei temtio i fod yn fwy penderfyniaethol nag sy'n briodol yn y modd yr edrychwn ar ymddygiad dynol. Cyfeiria at '*amrywiaeth diderfyn a natur anrhagweladwy'r ddrama hanesyddol'* fel prawf o realiti rhyddid dynol.



Pwnc trafod

A yw hi byth yn bosibl rhagweld beth a wna rhywun?

## Sut y gall bodau dynol fod yn rhydd?

Hyd yn oed os yw bodau dynol yn rhydd, ni all eu rhyddid fod yn absoliwt, ac y mae arno nifer o gyfyngiadau ymarferol:

### *Cyfyngiadau a achosir gan weithrediad deddfau'r bydysawd*

Gweithreda'r bydysawd yn unol â deddfau penderfyniaethol caeth, a alwn ni yn gemeg, bioleg, ffiseg ac ati. Y mae i bob digwyddiad ddigwyddiad blaenorol a'i hachosodd ac, mewn egwyddor, gellir rhagweld pob digwyddiad. Felly, pe gwyddem gyflwr cychwynnol y bydysawd, fe ellid, mewn egwyddor, ragweld ei holl gyflyrau yn y dyfodol. Peth ffisegol yw'r ymennydd dynol, ac y mae'n ddarostyngedig i'r un deddfau penderfyniaethol. Felly, ni all fod llwyr ryddid i'r ewyllys.

Yn ddiddorol, dadleuai Hume fod bodau dynol yn dal yn rhydd er gwaetha'r cyfyngiadau hyn am mai ystyr rhyddid yw bod yn rhydd oddi mewn i gyfyngiadau'r natur ddynol. Y mae gweithredoedd rhywun yn rhydd os ydynt yn ganlyniad penderfyniad a wneir yn unol â'i gredoau a'i ddyheadau.



Pwnc trafod

A yw ewyllys rydd mewn difrif yn ddarostyngedig i ddeddfau'r bydysawd?

***Cyfyngiadau a achosir gan ein barn am natur unigolyn: A wyf 'fi' yn bod mewn gwirionedd?***

Os yw rhyddid dynol yn dibynnu ar natur person, a oes yna 'fi' adnabyddadwy a all fod yn rhydd yn y lle cyntaf? Y mae sawl gwahanol safbwynt:


- Gwêl Penderfyniaeth Galed yr hunan fel rhith a achosir gan galedwedd yr ymennydd. Os nad oes enaid i roi i rywun hunaniaeth bersonol, yr unig beth sydd ar ôl yw ymennydd a gynlluniwyd i 'ymddwyn' mewn ffyrdd arbennig. Er enghraifft, gall niwroffisioleg olrhain sut y mae'r ymennydd yn gweithio a lleoli pa rannau ohono sy'n prosesu dymuniadau, bwriadau a dyheadau. Yn yr ystyr hon, nid yw syrthio mewn cariad yn ddim ond ymateb yn yr ymennydd. Does yna ddim 'fi' i ddewis syrthio mewn cariad – yr ymennydd sy'n gwneud hynny, yn awtomatig. Os rhith yw'r hunan, felly hefyd y syniad ei fod yn rhydd i wneud penderfyniadau.

- Fodd bynnag, y mae'r patrwm o ymwybyddiaeth a ddatblygwyd gan y gwyddonwyr Stuart Hameroff a Roger Penrose fel pe bai'n awgrymu bod yr ymennydd yn debycach i gyfrifiadur cwantwm, a'r bersonoliaeth neu'r enaid dynol fel math o ryngwyneb rhyngddo a'r bydysawd. Dyfala Penrose and Hameroff ei bod yn rhaid bod prosesau cwantwm yn digwydd yn yr ymennydd i gyfrif am y gallu dynol mewn mathemateg. Nid ymddengys bod cynnydd mewn mathemateg yn deillio o gadwynau safonol y meddwl penderfyniaethol ond yn hytrach o ryw broses uwch o sythwelediad. Fe all, felly, fod bodau dynol yn medru mynd y tu hwnt i ddylanwadau penderfyniaeth.

- Dadleuai Kant ei bod yn amhosibl inni wybod a yw pethau'n cael eu penderfynu ymlaen llaw ai peidio ac y gall nad yw'r hyn yr ydym ni'n honni ei fod yn wir yn ddim ond adlewyrchiad o'r modd y mae ein hymennydd yn dehongli'r byd. Gwahaniaethai ef rhwng:

    - Ffenomena – ein profiad o bethau
    - Noẅmena – pethau fel y maent mewn gwirionedd.

Yn y byd naturiol, meddai, y mae popeth yn ufuddhau i ddeddfau achos ac effaith. Pan gymhwyswn hyn at weithgaredd a phrofiad dynol, gwelwn bethau fel pe baent wedi eu '*penderfynu'n ffenomenaidd*', hynny yw wedi eu dehongli gan ein hymennydd yn unol â'r ffordd y gwelwn ni bethau.



Gwaith seminar

A oes yna yn y lle cyntaf 'fi' y gellir ei adnabod ac a all fod yn rhydd? Pa rai o'r safbwyntiau uchod sy'n eich argyhoeddi fwyaf a lleiaf? Pam?

***Cyfyngiadau a achosir gan natur Duw: A yw natur Duw yn tynnu ymaith ryddid pobl i weithredu neu ddewis?***

'*Naill ai nad ydym ni ddim yn rhydd ac mai'r Duw hollalluog sy'n gyfrifol am bob drygioni. Neu ein bod ni yn rhydd ac mai ni sy'n gyfrifol.*'
Camus: *The Myth of Sisyphus*.

Hen ddadl credinwyr yw bod Duw, wrth natur, yn hollwybodus ac yn bodoli mewn amser. Achosa hyn gyfyng-gyngor diwinyddol dwys:

- Os yw Duw'n hollwybodus, fe ŵyr y dyfodol
- Felly, y mae'r dyfodol eisoes wedi'i benderfynu
- Felly, nid yw bodau dynol yn rhydd i wneud dewisiadau.

Y mae peth tystiolaeth fod Cristnogaeth, at ei gilydd, yn cefnogi egwyddorion penderfyniaeth a bod credinwyr yn derbyn bod Duw yn gwybod eisoes pwy a groesewir i'r Nefoedd ac a achubir a phwy a wrthodir. Yr enw ar hyn yw 'rhagarfaethiad' neu 'ragordeiniad'. Dywedodd Sant Paul:

*'Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu, y rhai sydd wedi eu galw yn ôl ei fwriad. Oherwydd, cyn eu bod hwy, fe'u hadnabu, a'u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd â'i Fab, fel mai cyntaf-anedig fyddai ef ymhlith pobl lawer. A'r rhai a ragordeiniodd, fe'u galwodd hefyd; a'r rhai a alwodd, fe'u cyfiawnhaodd hefyd; a'r rhai a gyfiawnhaodd, fe'u gogoneddodd hefyd.'* - Rhufeiniaid 8:28-30

Heddiw, y mae rhagarfaethiad yn un o 39 Erthygl Ffydd Eglwys Loegr:

'*Rhagluniaeth i fywyd yw tragwyddol arfaeth Duw'.*

– Erthygl 17: Y Llyfr Gweddi Gyffredin

Fodd bynnag, dros y canrifoedd, fe fu oddi mewn i'r Eglwys Gristnogol gryn anghytuno ar union ystyr hyn. Dyma rai o'r dadleuon ysgolheigaidd:

***<u>Awstin o Hippo (354-430 OC)</u>***

Credai Awstin mai ewyllys rydd ddynol a arweiniodd at y Pechod Gwreiddiol, sef anufudd-dod Adda ac Efa a wnaeth bechod yn rwystr rhwng y ddynolryw a Duw. Yn ei *Gyffesion* dadleua Awstin mai canlyniad oedd y Pechod Gwreiddiol i ffolineb, balchder ac anufudd-dod bwriadus Adda ac Efa i Dduw. Achoswyd hyn gan Satan, a blannodd 'hadau amheuaeth' yn eu meddwl.

Gwnaeth hyn fodau dynol yn bechadurus wrth natur – fe'u difethwyd gan bechod. Y mae ganddynt ysbryd a grëwyd gan Dduw, ond cnawd sy'n llygredig a phechadurus. Nid yw pobl yn rhydd i ddewis ymateb i Dduw. Ni allant ohonynt eu hunain gyrraedd perffeithrwydd moesol oherwydd fe'u ganed yn bechaduriaid – dim ond gras (rhodd) Duw a all eu hachub. Cynigia Duw yn llawen '*y rhodd o ddyfalbarhad*' i'r rhai hynny sy'n dilyn Crist ac sy'n derbyn ei aberth ar y Groes yn iawn am eu pechodau. Rhodd rad oddi wrth Dduw yw iachawdwriaeth bersonol.

Fodd bynnag, yn ei waith *Ar Ddewis Rhydd yr Ewyllys* esbonia Awstin nad pawb a all dderbyn cynnig Duw o iachawdwriaeth, oherwydd ni chynigir mohono ond i'r ychydig dethol ('yr Etholedigion'). Credai Awstin fod Duw'n dewis pwy i achub neu beidio. Y mae iachawdwriaeth ar gael i bawb sydd yn

ei ddewis, ond gŵyr Duw pwy fyddant. Yn yr ystyr hon, nid yw hollwybodolrwydd Duw yn gwadu rhyddid dyn. A dyfynnu Awstin:

‘*A feiddia neb ddweud na wyddai Duw ymlaen llaw i bwy y rhoddai gred? Dyma ragarfaethiad y saint, sef y rhagwybod a’r cynllunio a fu ar lawer caredigrwydd Duw yr achubir hwy’n gwbl sicr trwyddynt.*’

Pwnc trafod

Os yw Duw’n hollgariadus, a ellir cyfiawnhau rhagarfaethiad?

***Pelagius (354 – 420/40 OC)***

Anghytunai Pelagius yn gryf ag Awstin. Credai Pelagius na lygrwyd dynolryw gan y Pechod Gwreiddiol a bod pobl, gyda chymorth Duw, yn dal yn rhydd i ddewis daioni. Yn ei *Amddiffyniad o Ryddid yr Ewyllys* dywedodd i bechod Adda ‘osod esiampl ddrwg’, ond disodlwyd hynny gan fywyd a gweinidogaeth Iesu Grist a ‘osododd esiampl dda’.

Mae Pelagius yn mynnu bod gan fodau dynol reolaeth lawn ac ewyllys rydd i ddewis ufuddhau i Dduw neu beidio. Mae’n bosibl eu bod yn bechadurus; eto, gallant o hyd dewis gwneud daioni ac y mae ganddynt gyfrifoldeb moesol llwyr am eu gweithgaredd. Y maent, felly, fel troseddwyr, ac arnynt angen iawn Iesu Grist i’w hachub - ond nid dioddefwyr diymadferth na allant ddewis trostynt eu hunain mohonynt. Yn ôl Pelagius, ewyllys rydd yw ‘nodwedd uchaf dynolryw’.

Yn wahanol i Awstin, credai Pelagius y gallai bodau dynol gyrraedd perffeithrwydd moesol trwy eu dewis rhydd eu hunain. Gwrthwynebai safbwynt Astin ar ragarfaethiad oherwydd, meddai, y byddai’n anghyfiawn anfon pobl i Uffern am wneud yr hyn na allent osgoi ei wneud (pechu) a bod rhagarfaethiad yn ysbeilio pobl o ewyllys rydd a chyfrifoldeb moesol.

Pwnc trafod

Os yw bodau dynol yn bechaduriaid, sut y gallant gyrraedd perffeithrwydd moesol?

Pwnc ymchwil

Casglwch y dystiolaeth Feiblaidd sy’n cefnogi a/neu’n gwrthwynebu safbwyntiau Awstin a Phelagius.

### *Aquinas*

Y mae hollwybodolrwydd Duw yn dragwyddol. Felly, gall Duw weld y gorffennol, y presennol a'r dyfodol ac y mae ei wybodaeth yn '*anachoso*l'. Ystyr hynny yw fod Duw yn gwybod canlyniadau gweithredoedd pobl ond nid ef sy'n eu hachosi – felly, y mae pobl yn rhydd. Gall y safbwynt hwn, fodd bynnag, beri anawsterau i'r sawl sy'n credu bod gan Dduw berthynas bersonol ag unigolion.

### *John Calfin (1509 – 1564 OC)*

Fel Awstin, credai John Calfin mewn rhagarfaethiad. Yn *Sefydliadau'r Grefydd Gristnogol* dadleua i bechod gychwyn gyda chwymp Adda ac Efa ac, o ganlyniad, bod yr holl ddynolryw yn bechadurus a phobl yn cael eu '*gyrru at ddrygioni*'. Daw'r unig gymorth sydd ar gael i ddynolryw trwy Iesu Grist. Yn ôl Calfin, y mae angen undeb ysbrydol rhwng Crist a'r ddynolryw ac ni ddaw hynny ond trwy ffydd. Arweinia ffydd bobl i ofyn am faddeuant i'w pechodau (gollyngdod) ac i newid eu bywydau i ddilyn Crist (edifeirwch).

Fodd bynnag, ni ellir cyrraedd perffaith sancteiddrwydd mewn un oes ddynol, a rhaid i gredinwyr dreulio eu hoes ddaearol gyfan yn ymlafnio yn erbyn pechod. Ond am fod ganddynt ffydd, fe'u hachubir ac ânt i'r Nefoedd. Gelwir hyn yn '*gyfiawnhad trwy ffydd yn unig*', a rhodd ydyw oddi wrth Dduw sydd ind yn cael ei roi i'r sawl y mae Duw'n ei alluogi i fod â ffydd. Yn ôl Calfin:

'… *dyma'r derbyniad y mae Duw trwyddo yn ein hystyried yn gyfiawn ni a dderbyniodd i'w ras'.*

Yn ddiweddarach, cynigiodd dilynwyr Calfin 'Bum Pwynt' cred:

1. Llygriad Llwyr – y mae bodau dynol wrth natur yn bechadurus ac yn analluog i ddewis Duw a chael eu hachub.
2. Etholedigaeth Ddiamod – Duw sy'n dewis pwy a achubir (yr Etholedigion).
3. Iawn Cyfyngedig – Y mae marwolaeth Iesu yn achub yr Etholedigion.
4. Gras Anorchfygol – Rhydd Duw ei rodd o iachawdwriaeth (gras) i'r sawl sy'n ei fynnu. Ni all neb ei wrthod.
5. Dyfalbarhad y Saint – Bydd Duw'n sicrhau y bydd yr Etholedigion yn dal yn gryf eu ffydd.

*'Bydd yr Ysbryd Glân yn ei ras yn peri i'r pechadur etholedig gydweithredu a chredu a nesáu o wirfodd ei ewyllys at Grist.*'

I Calfin, o Dduw yn unig y daw iachawdwriaeth dynolryw – mae Duw'n dewis y rhai a achubir ac yn penderfynu eu bywyd yn ôl hynny:

*'Y mae Duw yn mabwysiadu rhai i obaith bywyd ac yn barnu eraill i farwolaeth dragwyddol.*'



Pwnc trafod

A yw 'cyfiawnhad trwy ffydd yn unig' yn athrawiaeth deg?

### ***Jacobus Arminius (1560 – 1609 OC)***

Gwahaniaetha Arminius oddi wrth Calfin. Cred ef fod gan fodau dynol o leiaf rywfaint o ewyllys rydd. Dywed y bydd yr Ysbryd Glân yn cynorthwyo pawb sy'n ceisio Duw i ddod o hyd iddo. Mae hyn yn cael ei alw'n ras 'ataliol' - rhodd oddi wrth Dduw i atal damnedigaeth. Yn ei *Ysgrifeniadau* dywed fod hyn yn:

'… *ddigonol at gred, er gwaethaf ein llygredigaeth bechadurus, ac yn ddigonol, felly, at iachawdwriaeth*'.

Cynigiodd dilynwyr Arminius 'Bum Erthygl Gwrthdystiad' ynglŷn ag ewyllys rydd ddynol a Duw:

1. Achubir pawb sy'n credu yn Iesu Grist.
2. Y mae iachawdwriaeth ar gael i bawb.
3. I gael iachawdwriaeth, rhaid i bobl edifarhau a chael eu 'haileni'.
4. Rhodd oddi wrth Dduw yw gras; y mae pobl yn rhydd i'w derbyn neu ei gwrthod.
5. Gall y rhai y mae ganddynt ffydd yng Nghrist wrthsefyll drygioni.

Derbyniai Arminius y safbwynt bod Duw eisoes wedi dewis rhai pobl (yr Etholedigion), ond y gallai eraill hefyd, trwy eu dewis rhydd eu hunain, ddewis ffydd a chael eu hachub gan ras Duw.

'*Rhoddwyd i'r Etholedig a'r Anetholedig ras digonol at iachawdwriaeth; fel, os ewyllysiant, gallant gredu neu beidio â chredu, cael eu hachub neu beidio â chael eu hachub.*'

Pwnc trafod

Beth yw gras Duw? Beth yw ystyr 'ailenedigaeth'?
I Arminius, beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr Etholedig a'r Anetholedig?

Pwnc trafod

Os rhagarfaethwyd rhywun i fynd i Uffern, am beth y cosbir ef?

Pwnc seminar

Ai dadl Calfin neu ddadl Arminius sy'n eich argyhoeddi fwyaf? Pam?


Os yw Duw yn gwybod bopeth, ai ef sy'n gyfrifol am fod pobl yn dioddef ac yn marw?

## Casgliad

Heddiw, ymddengys bod y rhan fwyaf o bobl yn derbyn eu bod yn hanfodol rydd i ddewis a gweithredu, er bod i'r rhyddid hwn gyfyngiadau. Canlyniad y farn hon yw bod pobl yn foesol gyfrifol am eu dewisiadau a'u gweithgareddau, beth bynnag eu hamgylchiadau, eu personoliaeth, eu gwneuthuriad genetig ac ati.

Dadleuodd Jean-Paul Sartre mai rhyddid yw'r gwirionedd sylfaenol am ddynolryw ac mai calon y profiad dynol yw'r profiad o fod yn rhydd. Honnai ef ein bod bob amser yn ymwybodol y gallem ddewis gweithredu neu feddwl yn wahanol. Y mae pob ennyd o ymwybyddiaeth, felly, yn ennyd o ddewis. Tybiai Sartre, fodd bynnag, fod yma anhawster oherwydd, mewn bodau dynol, '*y mae bodolaeth yn rhagflaenu hanfod*'. Golyga hyn nad oes gan fodau dynol natur benodedig sy'n pennu beth a maent yn ei wneud a'u bod yn gwneud dewisiadau heb gredu mewn na chyfarwyddyd na sicrwydd Duw nac athrawiaethau crefyddol nac unrhyw reswm gwrthrychol.

Dywedodd fod bodau dynol '*wedi eu condemnio i fod yn rhydd*' ac i wneud dewisiadau mewn '*gwewyr, unigedd ac anobaith*'.



Gwaith seminar

I ba raddau y cawn ein llunio'n fwy gan ein genynnau na gan ein hamgylchedd?
A ellir cymodi'r credoau crefyddol mewn rhagarfaethiad ac ewyllys rydd?